



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

PRIFYSGOL BANGOR

**GWAITH CRAFFU A SICRHAU ANNIBYNNOL AR RAGOLYGON
TRETHI DATGANOLEDIG I GYMRU**

ADRODDIAD TERFYNOL

HYDREF 2018

**Adroddiad wedi'i
gynhyrchu gan:**

**Dr Edward Thomas Jones
Dr Helen Rogers**

**Yr Athro Lynn Hodgkinson
Dr Rhys ap Gwilym
Dr Gwion Williams
Sara Closs-Davies**

**Ysgol Busnes Bangor
Prifysgol Bangor**

** Efallai na fydd y rhifau yn y tablau yn gyfwerth â'r cyfanswm yn sgil talgrynnu.*

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r methodolegau a'r rhagdybiaethau sy'n ymwneud â rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi datganoledig a fydd yn sail i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019/20, ynghyd â chasgliadau Ysgol Busnes Bangor ar eu haddasrwydd i'w defnyddio yn y broses o bennu cyllideb.

Dan delerau'r fframwaith cyllidol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i roi trefniadau ar waith ar gyfer craffu'n annibynnol ar ragolygon refeniw trethi datganoledig. Yn dilyn ymarfer caffael cystadleuol, penodwyd Ysgol Busnes Bangor, Prifysgol Bangor i ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae amcanion y gwaith hwn fel a ganlyn:

- Darparu gwaith craffu a sicrhau annibynnol am ragolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi Cymru (Treth Trafodiadau Tir, Treth Gwarediadau Tirlenwi, Ardrethi Annomestig a Cyfraddau Treth Incwm) i'w gynnwys yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb 2019/20 a blynyddoedd o bosibl yn y dyfodol; a,
- Darparu cyngor ynghylch gwella methodolegau ar gyfer rhagolygon yn y blynyddoedd i ddod.

Nod cyffredinol yr adroddiad yw dangos sut mae pob un o'r rhagolygon wedi ei gyfrifo er mwyn darparu mwy o dryloywder ynghylch sut mae rhagolygon trethi datganoledig wedi cael eu hymgorffori yng Nghyllideb Ddrafft 2019/20 ac er mwyn egluro sut mae'r gwaith o graffu a rhoi sicrwydd annibynnol i'r broses yn digwydd.

Oherwydd natur y gwaith, mae rhagweld refeniw trethi yn amodol ar lwfansau gwall. Caiff rhagdybiaethau eu hymgorffori mewn rhagolygon ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael ar y pryd. Er hynny, gwelir yn aml fod y rhagdybiaethau hyn yn rhy optimistaidd neu besimistaidd wrth i ddigwyddiadau economaidd newydd godi drwy'r amser. Mae ansicrwydd o'r fath yn arbennig o fawr yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Er enghraifft, ymadawiad Prydain o'r UE, ynghyd â diffyg eglurder ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, o reidrwydd yn cynyddu'r ansicrwydd economaidd a wynebwr yng Nghymru ac, yn ei dro, llwybr refeniw trethi yn y dyfodol. Mae angen cadw mewn cof yr ansicrwydd hwn wrth ddehongli'r rhagolygon ar gyfer refeniw trethi datganoledig.

Mae Adran 2 yn cyflwyno ac yn trafod y senario economaidd sydd yn tanategu'r rhagolygon refeniw trethi. Mae'r DU yn chwarae rhan bwysig o ran pennu llwybr economi Cymru, ac felly, mae gwaith y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn darparu rhagolygon annibynnol ar gyfer economi'r DU yn berthnasol wrth lunio proffil a chyfansoddiad gweithgarwch economaidd yng Nghymru. Mae rhagolygon a rhagdybiaethau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhan o ddarlun macro-economaidd

a chyfres o ragdybiaethau ehangach. Yn absenoldeb gwybodaeth amgen, megis gwybodaeth fanwl sy'n benodol i Gymru, bernir ei bod yn briodol gwneud defnydd o'r penderfynyddion hyn gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Mae Adranau 3 a 4 yn nodi rhagolygon refeniw ar gyfer y ddwy dreth sydd newydd eu datganoli - Treth Gwarediadau Tirlenwi a Threth Trafodiadau Tir - am y cyfnod hyd at 2022/23. Mae'r fethodoleg ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn seiliedig ar ragweld y cyfanswm a'r math o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi Cymru a chymhwyso'r gyfradd dreth briodol i ddeillio refeniw trethi. Mae rhagolwg y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer prif gyfraddau eiddo preswyl, eiddo ychwanegol, prif gyfraddau eiddo dibreswyl ac eiddo prydlesol dibreswyl yn seiliedig ar fethodoleg o'r gwaelod i fyny sy'n defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael i greu dosraniad prisiau blwyddyn sylfaen. Caiff hyn ei addasu i adlewyrchu newidiadau mewn amodau economaidd ac effeithiau ar ymddygiad, a chaiff refeniw trethi ei ddeillio o ddosraniadau'r dyfodol. Caiff hyn ei addasu i adlewyrchu newidiadau mewn amodau economaidd ac unrhyw effeithiau ymddygiadol, ac mae refeniw treth yn deillio o ddosbarthiadau a ragwelir o flynyddoedd yn y dyfodol.

Mae Adran 5 yn amlinellu'r rhagolwg refeniw ar gyfer Ardrethi Annomestig, treth sydd wedi'i datganoli yn gyllidol i Lywodraeth Cymru ers Ebrill 2015. Nid yw rhagolygon refeniw Ardrethi Annomestig yn deillio o fodel penodol, ond o ddata cyfanredol o'r ymarfer gweinyddol a wnaed i benderfynu'r swm y gellir ei ddosbarthu i awdurdodau lleol. Mae angen ystyried nifer o ryddhadau ac addasiadau eraill cyn y gellir deillio swm terfynol y rhagolwg sydd ar gael i'w ddosbarthu yn ôl i awdurdodau lleol.

Mae Adran 6 yn nodi rhagolygon refeniw ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru am y cyfnod hyd at 2022/23. Mae'r rhagolwg wedi'i seilio ar fethodoleg o'r gwaelod sy'n defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael ac yn caniatáu dull tryloyw o ragweld. Mae'r fethodoleg yn creu dosbarthiad refeniw blwyddyn sylfaen sy'n cael ei addasu i adlewyrchu newidiadau yn amodau'r farchnad lafur, ac mae refeniw treth yn deillio o ddosbarthiadau yn y dyfodol.

Ar gyfer pob un o'r rhagolygon refeniw hyn mae Ysgol Busnes Bangor wedi gweithio gyda Thrysorlys Cymru i adolygu a phrofi eu methodoleg, ac mae'n gwneud argymhellion ar sut y gellid gwella ar y dulliau hyn. Bu hon yn broses ailadroddol a ddatblygwyd trwy gydol pob cam o'n gwaith, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed gan Ysgol Fusnes Bangor y llynedd. Darperir crynodeb o'r gwaith datblygu hwn yn yr adran nesaf a chaiff ei drafod ymhellach ym mhob adran briodol. Rydym hefyd wedi gwneud nifer o argymhellion ar gyfer datblygu'r dulliau hyn yn y dyfodol.

Ar sail y senario economaidd a ddisgrifir yn Adran 2 a'r fethodoleg a drafodir yn yr adroddiad hwn, mae'r rhagolygon refeniw Llywodraeth Cymru o Dreth Trafodiadau Tir, Treth Gwarediadau Tirlenwi, Ardrethi Annomestig a Chyfraddau Treth Incwm, ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2019/20 Llywodraeth Cymru, yn cael ei gyflwyno isod:

Rhagolygon refeniw trethi Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 i 2022/23 (£ miliwn)

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Treth Gwarediadau Tirlenwi	44	40	36	34	32
Treth Trafodiadau Tir	240	258	269	287	309
Ardrethi Annomestig	1,050	1,061	1,090	1,111	1,134
Chyfraddau Treth Incwm	-	2,099	2,164	2,237	2,320
Cyfanswm	1,334	3,458	3,559	3,669	3,795

Mae Ysgol Busnes Bangor wedi craffu ar y rhagolygon ar gyfer y trethi datganoledig a'r fethodoleg a'r rhagdybiaethau sy'n sail iddynt **Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan Drysorlys Cymru, trafodaethau gydag academyddion ac ymarferwyr ynghylch rhagdybiaethau damcaniaethol y modelau (gan gynnwys dewis ffactorau) ac archwiliad dadansoddol o'r offer a'r modelau, mae Ysgol Busnes Bangor wedi dod i'r casgliad bod y rhagolygon yn seiliedig ar fethodolegau a rhagdybiaethau cadarn a phriodol.** Mae amrywiad disgwylidig yn y rhagolygon refeniw ar gyfer gwahanol senarios economaidd a rhagdybiaethau model yn cefnogi addasrwydd y rhagolygon i'w cynnwys yn y broses pennu cyllideb.

DATBLYGU METHODOLEG AC ARGYMHELLION AR GYFER Y DYFODOL

Datblygu methodoleg

Drwy'r broses o weithio gyda Llywodraeth Cymru i graffu ar eu methodolegau rhagweld, gwnaeth Ysgol Busnes Bangor nifer o argymhellion a ymgorfforwyd wedyn er mwyn datblygu'r proses modelu.

Er enghraifft, mae'r diffyg data refeniw Gwarediadau Tirlenwi hanesyddol ar gyfer Cymru yn her i lunio rhagolygon. Mae'r wybodaeth gychwynnol wedi dod ar gael gan yr Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a, yn seiliedig ar awgrym gan Ysgol Fusnes Bangor, roedd Trysorlys Cymru yn gallu ymgorffori hyn yn y rhagolygon mewn ffordd ddoeth. Roedd hyn yn caniatáu i'r rhagolygon wneud defnydd rhesymol o wybodaeth sydd ar gael yn ddiweddar.

O ran y Dreth Trafodiadau Tir, gofynnwyd i Drysorlys Cymru i ystyried perfformiad marchnad eiddo Cymru'r flwyddyn flaenorol i sicrhau mai'r sefyllfa gyntaf ar gyfer y rhagolygon oedd y mwyaf priodol. Cynhaliwyd profion annibynnol yn annibynnol ar y fethodoleg a phrofi sefydlogrwydd dosbarthiadau prisiau trafodion sy'n sail i'r rhagolygon hefyd.

O ran Trethi Annomestig, bu, yn unol ag argymhelliad Ysgol Fusnes Bangor, waith parhaus i wella mynediad at wybodaeth ar apeliadau, elfen bwysig o fewn yr offeryn rhagweld.

Mae Treth Incwm Cymru yn cynrychioli ffrwd refeniw datganoledig newydd ar gyfer y gyllideb hon. Gofynnwyd i Drysorlys Cymru edrych ar ffynonellau amgen ar gyfer penderfynyddion rhagweld ac ystyried yr ymagwedd orau ar gyfer dal dynameg farchnad lafur Cymru (sy'n gyrrwr allweddol o refeniw treth incwm).

Argymhellion ar gyfer y dyfodol

Dyma restr o argymhellion newydd (N) sy'n deillio o waith eleni. Mae'r rhain yn faterion y cynghorir eu harchwilio a'u gweithredu fel rhan o waith dilynol yn gwneud rhagolygon.

No.	Model	Recommendation
N1	Cyffredinol	Dylid rhoi ystyriaeth bellach i ymgymryd â gwaith pellach i ddarparu data penodol i Gymru er mwyn helpu i lywio'r ymarfer rhagolygon. Dylid ystyried y posibilrwydd o ddatblygu dull systematig o fesur a deall economi Cymru.
N2	Treth Gwarediadau Tirlenwi	Trysorlys Cymru i barhau i gydweithio'n agos â'r ACC i ymgorffori gwybodaeth berthnasol i'r broses rhagweld lle bo modd.
N3	Treth Gwarediadau Tirlenwi	Trysorlys Cymru i sefydlu proses fonitro i asesu'r perfformiad ac addasrwydd parhaus y model ar gyfer rhagweld refeniw. Mae hyn yn cynnwys dull o brofi ôl-brofi'r modelau sy'n seiliedig ar wybodaeth o'r ACC pan fydd digon o ddata ar gael.
N4	Treth Trafodiadau Tir	Trysorlys Cymru i sefydlu proses fonitro i asesu'r perfformiad ac addasrwydd parhaus y model ar gyfer rhagweld refeniw. Mae hyn yn cynnwys dull o brofi ôl-brofi'r modelau sy'n seiliedig ar wybodaeth o'r WRA pan fydd digon o ddata ar gael.
N5	Ardrethi Annomestig	Parhau i weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i drafod dulliau o wella argaeledd gwybodaeth amserol am apeliadau.
N6	Chyfraddau Treth Incwm	Trysorlys Cymru i ymgorffori data newydd ar Cyfraddau Treth Incwm Cymru wrth iddo ddod ar gael ac ystyried unrhyw wybodaeth newydd ar effeithiau ymddygiadol treth incwm.

CYNNWYS

Crynodeb Gweithredol	tudalen 3 i tudalen 7
Cynnwys	tudalen 8
Adran 1 – Rhagarweiniad	tudalen 9 i tudalen 11
Adran 2 – Ansicrwydd rhagolygon, economi Cymru ac addasu'r grant bloc.	tudalen 12 i tudalen 22
Adran 3 – Treth Gwarediadau Tirlenwi	tudalen 23 i tudalen 36
Adran 4 – Treth Trafodiadau Tir	tudalen 37 i tudalen 61
Adran 5 – Ardrethi Annomestig	tudalen 62 i tudalen 72
Adran 6 – Cyfraddau Treth Incwm Cymru	tudalen 73 i tudalen 82
Adran 7 – Diwedd glo	tudalen 83
Atodiad	tudalen 84

ADRAN 1 - RHAGARWEINIAD

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith craffu a sicrwydd annibynnol a wnaed ar ragolygon trethi datganoledig Llywodraeth Cymru. Ym mis Ebrill 2015, cafodd cyfrifoldeb ariannol dros ardrethi annomestig ei ddatganoli i Weinidogion Cymru a bydd y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ddisodli Treth Dir Treth Stamp y DU a Threth Tirlenwi'r DU ym mis Ebrill 2018. Yn dilyn hyn caiff treth incwm ei datganoli'n raddol o fis Ebrill 2019. Bydd y rhan fwyaf o agweddau ar dreth incwm yn parhau yn gyfrifoldeb ar Lywodraeth y DU a Chyllid a Thollau ei Mawrhydi (CthEM) fydd yn gweinyddu ac yn casglu'r dreth. Mae gwaith ar y gweill rhwng Llywodraeth Cymru a CthEM i weithredu cyfraddau Cymru ar gyfer y Dreth Incwm. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu modelau rhagweld refeniw trethi a bydd y rhagolygon hynny'n cael eu hymgorffori yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Felly mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar drethi Cymru, ac mae rhagolygon refeniw treth yn dod yn elfen fwy arwyddocaol o'r broses gosod cyllideb yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â phroses ragweld er mwyn rhagfynegi refeniw o'r trethi datganoledig hyn. Cyflwynir pob rhagolygon yn flynyddol.

Datblygwyd y rhagolygon hyn trwy ddefnyddio modelau economaidd ac offer cyfrifo, gan dynnu ar wahanol ffynonellau data i'w cynnwys yn y modelau. Mae'r modelau a'r offer rhagolygon hwn wedi'u cynllunio gyda'r nod o ragweld refeniw treth, ac i weithredu fel offeryn dadansoddol i helpu i ddadansoddi goblygiadau refeniw newidiadau yn y trethi yn y dyfodol.

Amcanion y contract

Mae prif amcanion yr adolygiad annibynnol hwn fel a ganlyn:

- Darparu gwaith craffu annibynnol ar y modelau rhagweld a'r dulliau a ddefnyddir i ragweld refeniw trethi (o Ardrethi Annomestig, y Dreth Trafodiadau Tir, Treth Gwarediadau Tirlenwi, a Chyfraddau Treth Incwm Cymru) i'w cynnwys yng Nghyllideb 2019/20;
- Darparu cyngor ynghylch gwella'r methodolegau ar gyfer rhagolygon yn y blynyddoedd i ddod.

Methodoleg

Fel rhan o'r gwaith craffu hwn, bu Ysgol Busnes Bangor yn gweithio gyda Thrysorlys Cymru, yn gyntaf er mwyn deall y broses ragweld yn well ac yna er mwyn adolygu eu modelau economaidd a'u hofferynnau cyfrifyddu, a'r gwahanol ffynonellau data mewnbwn a ddefnyddiwyd. Gwerthuswyd ansawdd y data mewnbwn ac ystyriwyd data amgen; data nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn y broses ragweld, ond sy'n haeddu ei ystyried. Defnyddiwyd dadansoddiadau sensitifrwydd i helpu i dynnu sylw at rai o'r meysydd lle gallai'r effaith ar refeniw fod yn fwyaf arwyddocaol. Roedd hyn o gymorth hefyd wrth gydnabod yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â rhagolygon economaidd ac i roi cipolwg ar lwybrau eraill posibl ar gyfer refeniw trethi.

Wrth gydnabod yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â rhagolygon economaidd, defnyddiwyd dadansoddiadau sensitifrwydd i helpu i dynnu sylw at rai o'r meysydd lle gallai'r effaith ar refeniw fod yn fwyaf arwyddocaol.

Proses

Dechreuodd y gwaith craffu rhagolwg ar gyfer Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019 gan Ysgol Fusnes Bangor ddiwedd Mawrth 2018, pan ryddhaodd Trysorlys Cymru wybodaeth am eu rhagolygon a dogfennau ategol i'w hadolygu. Darparwyd rhagor o wybodaeth yn barhaus fel y câi ei rhyddhau. Cafodd y modelau a'r rhagolygon eu diweddarau a'u hadolygu'n barhaus yn ystod y broses. Roedd pedwar cam gwahanol yn rhan o fanyleb y contract ar gyfer y gwaith hwn a disgrifir isod allbwn pob cam. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu camau 1 i 3 ac, fel y nodir isod, cynhyrchir cyflwyniad ysgrifenedig pellach ochr yn ochr â Chyllideb derfynol Llywodraeth Cymru 2019/20 (cam 4).

Cam	Disgrifiad cryno
Cam 1	Gwaith cychwynnol i ddod i ddeall y dull sy'n cael ei fabwysiadu ar gyfer cynhyrchu rhagolygon trethi datganoledig, gan gynnwys cyfarfod i osod cyd-destun; gwaith arfarnu i asesu'r methodolegau hyn; cynhyrchu adroddiad interim yn amlinellu'r asesiad o'r methodolegau, gan gynnwys tynnu sylw at feysydd i'w gwella neu eu haddasu; cyfarfod diwedd Cam i drafod yr adroddiad ac unrhyw faterion eraill.
Cam 2	Ymgymryd â gwaith arfarnu parhaus wrth i Lywodraeth Cymru weithio ar ddyraniadau Cyllideb ac ar ddatblygu rhagolwg trethi interim; arfarnu'r broses hon ac ystyried rhagolygon diwygiedig; llunio adroddiad interim wedi'i ddiweddarau; cyfarfod diwedd Cam i drafod yr adroddiad ac unrhyw faterion eraill.

Cam	Disgrifiad cryno
Cam 3	Parhau i ystyried gwaith parhaus Llywodraeth Cymru cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ac ymateb i unrhyw ddiwygiadau yn y rhagolygon; llunio adroddiad yn tynnu ar brosesau a chanlyniadau'r camau blaenorol; cyfarfod diwedd Cam i drafod yr adroddiad ac unrhyw faterion eraill.
Cam 4	Asesu rhagolygon a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall; cynnal ymarfer i ystyried a oes angen newid ffigyrau'r rhagolygon a gynigir gan Lywodraeth Cymru; gweithio i gwblhau datganiad cytunedig i'w gyhoeddi gyda'r Gyllideb Derfynol, gan gynnwys unrhyw newidiadau rhwng Rhagolwg y Gyllideb Ddrafft a Rhagolwg y Gyllideb Derfynol sydd eu hangen oherwydd newidiadau mewn mewnbynau data; llunio canllawiau ar gyfer gwella methodolegau ar gyfer rhagolygon yn y blyneddoddi i ddod; cyfarfod diwedd y contract i drafod yr awgrymiadau ar gyfer y dyfodol a chwblhau'r datganiad cytunedig.

Bu Ysgol Busnes Bangor yn gweithio ochr yn ochr â Thrysorlys Cymru, gan adolygu deunydd newydd a'r rhagolygon diwygiedig, ac ystyried gwahanol ddulliau a senarios posibl. Yn ystod y broses ailadroddol hon, gwnaed argymhellion gan Ysgol Busnes Bangor ac fe'u hymgorfforwyd yn y broses ragweld gan Drysorlys Cymru. Ceir crynodeb o'r gwaith hwn yn y Crynodeb Gweithredol ac yn y drafodaeth ynglŷn â'r fethodoleg ym mhob adran. Mae nifer o argymhellion pellach ar gyfer datblygu'r fethodoleg ragweld yn y dyfodol a chaiff y rhain eu nodi ar ôl y Crynodeb Gweithredol.

Cyfnewid gwybodaeth

Mae rhagweld refeniw treth yn swyddogaeth gymharol newydd i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r gwaith adolygu, roedd gan Ysgol Fusnes Bangor gyfathrebu rheolaidd â chynrychiolwyr Swyddfa Cyfrifoldeb Gyllidebol (OBR) a Chomisiwn Cyllidol yr Alban (SFC), gan drafod eu dulliau o ragweld refeniw treth. Mae'r OBR yn cynhyrchu rhagolygon ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd ac mae'r SFC yn adrodd ar drethi datganoledig yn yr Alban a rhoddodd trafodaethau fewnwelediad i'r arfer o ragweld refeniw treth.

Ceir crynodeb o wybodaeth am y broses cyfnewid gwybodaeth a chyfathrebu yn Atodiad 1. Bu'r cyfathrebu hwn yn gyfle defnyddiol ar gyfer trafod dulliau gweithredu gwahanol sefydliadau mewn perthynas â rhagweld refeniw trethi a chynhwyswyd y ddealltwriaeth a gafwyd o wneud hynny yn y gwaith craffu ar y rhagolygon trethi datganoledig ar gyfer Cymru.

ADRAN 2 – ANSICRWYDD RHAGOLYGN AC ECONOMI CYMRU

Rhagarweiniad

Diben yr adran hon yw gosod cyd-destun yr amgylchedd economaidd sy'n sylfaen i'r craffu annibynnol a wneir ar ragolygon Llywodraeth Cymru o refeniw trethi Cymru. Mae'r adran hon hefyd yn nodi rhai o'r heriau a geir wrth wneud rhagolygon o refeniw trethi.

Rhoddodd Deddf Cymru 2014 bwerau newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â threthi a benthyca: pwerau i gyflwyno trethi yng Nghymru i gymryd lle treth dir treth stamp y DU a threth tirlenwi'r DU, datganoli treth incwm yn rhannol, pwerau i gyflwyno trethi datganoledig eraill fesul achos unigol a phwerau benthyca. Datganolwyd cyfrifoldeb ariannol dros Ardrethi Annomestig o fis Ebrill 2015, a chafodd y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi eu datganoli o fis Ebrill 2018. Dyma'r ail adroddiad blynyddol sy'n manylu ar waith craffu annibynnol Ysgol Busnes Bangor ar ragolygon refeniw trethi datganoledig. O fis Ebrill 2019 bydd treth incwm yn cael ei datganoli'n rhannol, a Llywodraeth Cymru fydd yn pennu'r cyfraddau, ac mae'r ail adroddiad hwn yn rhoi ystyriaeth i'r dreth honno hefyd.

Mae'r rhagolygon o refeniw trethi yn elfen hanfodol o gyllideb y Llywodraeth, ac o bolisi cyllidol tymor byr a chanolig. Fodd bynnag, nid oes digon o ymchwil wedi ei ddatblygu i dechnegau priodol o ragweld refeniw trethi yn fanwl. Cydnabyddir y gallai rhai mathau o drethi fod yn fwy anodd eu rhagweld nag eraill; a gall hyn newid dros amser, yn enwedig wrth i'r rheolau a'r sylfaen dreth newid.

Oherwydd yr ansicrwydd cyfredol wrth baratoi rhagolygon tymor canolig a thymor hir, erbyn hyn, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cynhyrchu adroddiad risg cyllidol sy'n nodi siociau neu bwysau posib ar ragamcaniadau. Yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, mae'r risgiau cyllidol mwyaf dros y tymor canolig mewn cyfnod o heddwch yn ymwneud â'r economi ac mae'r siawns y bydd dirwasgiad mewn unrhyw gyfnod o bum mlynedd tua un mewn dau. Dirwasgiad sy'n gysylltiedig ag argyfyngau ariannol yw'r mwyaf costus fel rheol, yn enwedig pan fydd eu heffeithiau economaidd yn parhau. Mae'r costau hirdymor hyn yn llawer mwy sylweddol ar y cyfan, ac mae'r siawns y bydd argyfwng ariannol mewn unrhyw gyfnod o bum mlynedd oddeutu un mewn pedwar. Mae angen

cymryd tebygolrwydd yr ansicrwydd hwn i ystyriaeth wrth adfyfrio ar y rhagolygon a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.¹

Ansicrwydd rhagolygon

Mae ansicrwydd yn rhan annatod o lunio rhagolygon oherwydd ni ellir gwybod i sicrwydd beth ddaw yn y dyfodol ac mae'n annhebygol y bydd unrhyw ragolwg yn gwbl gywir. Mae rhagolygon refeniw trethi'r dyfodol, neu newidynnau economaidd ehangach yr effeithir arnynt gan ystod eang o ffactorau, oherwydd eu natur, yn amodol ar lwfansau gwall. Mae yna ansicrwydd sylweddol wrth geisio rhagfynegi hynt yr economi, ac mae ansicrwydd economaidd yn dwysáu yn sgil yr ansicrwydd parhaus sy'n gysylltiedig ag ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd. Nid yw canlyniad y trafodaethau'n hysbys eto, ac felly mae'n anodd rhagweld effaith hyn ar yr economi. Er enghraifft, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cynnig y gallai'r ansicrwydd sy'n deillio o bleidlais Brexit fod wedi annog cwmnïau i ehangu cynhyrchu trwy gynyddu mewnbwn llafur cymharol hyblyg, yn hytrach na buddsoddi mewn cyfalaf, sy'n gam llai hawdd ei wrthdroi:² gall ansicrwydd galw olygu bod cwmnïau'n betrus ynglŷn ag ymgymryd â phrojectau buddsoddi mawr.

Wrth adolygu rhagolygon ac ystyried gwallau rhagweld, hynny yw, gwahaniaethau rhwng y rhagolygon a'r ffigyrau alldro, mae Ysgol Busnes Bangor yn rhannu barn ddatganedig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fod gwallau rhagweld yn wahaniaeth rhifyddol ac "nid yw hyn yn awgrymu y buasai'n bosibl eu hosgoi o ystyried yr wybodaeth oedd ar gael adeg y rhagolwg. Gall gwahaniaethau yn y ffigyrau alldro adlewyrchu datblygiadau na ellid bod wedi eu rhagweld a ddaeth ar ôl i'r rhagolwg gael ei wneud. Nid yw'n golygu y gellid o reidrwydd fod wedi osgoi gwallau o ystyried yr wybodaeth oedd ar gael ar y pryd."³

Mae ansicrwydd hefyd yn gysylltiedig â mesurau polisi newydd ac mae'r rhagolygon hyn yn ymwneud â threthi newydd a gweinyddiaeth dreth newydd. Mae paratoi rhagolygon refeniw'n golygu nid yn unig rhagfynegi datblygiadau macro-economaidd, ond hefyd rhagfynegi gweithrediad y gyfraith dreth a sut y caiff ei gorfodi.

¹ Fiscal Risk Report (Gorffennaf 2017) gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sydd ar gael yn www.gov.uk/government/publications/fiscal-risks-report-july-2017

² Forecast Evaluation Report (Hydref 2017) gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sydd ar gael yn www.gov.uk/government/publications/forecast-evaluation-report-october-2017

³ Forecast Evaluation Report (Hydref 2017) gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sydd ar gael yn www.gov.uk/government/publications/forecast-evaluation-report-october-2016

Mae ansicrwydd am refeniw hefyd yn deillio o newidiadau i'r gyfraith dreth: gall newidiadau neu addasiadau i'r gyfraith dreth gael effaith ar ymddygiad, gyda chanlyniadau refeniw sy'n anodd eu meintoli. Mae hyn yn awgrymu bod gwneud rhagolygon refeniw yn tueddu i fod yn anos yn wyneb newidiadau i'r gyfraith dreth oherwydd bod risg y gall rhai trethdalwyr ymateb trwy newid eu hymddygiad, ac mae hyn yn gofyn am ymarfer barn yn y broses ragweld.

Sefydlwyd Awdurdod Cyllid Cymru i gasglu a rheoli trethi datganoledig newydd ac mae wedi bod yn gwbl weithredol ers 1 Ebrill 2018. Gan fod Awdurdod Cyllid Cymru ar hyn o bryd ran o'r ffordd trwy ei flwyddyn gyntaf o fod yn weithredol, mae hyn yn ychwanegu ansicrwydd ychwanegol at ragfynegiadau ynghylch sut bydd y gyfraith dreth yn gweithredu'n ymarferol. Dros gyfnod hwy o amser bydd dull, camau gweithredu, a datganiadau cyhoeddus Awdurdod Cyllid Cymru yn helpu i lywio disgwyliadau ynghylch ei ddull o weinyddu a gorfodi, gan leihau'r ansicrwydd penodol hwn.

Wrth ddatblygu'r modelau rhagweld hyn, mae tîm Trysorlys Cymru wedi defnyddio data penodol o Gymru pan fo ar gael a phan fo'n briodol gwneud hynny ac mae hefyd wedi dibynnu ar ddata o ffynonellau eraill megis CthEM a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru, a ddaeth yn weithredol ym mis Ebrill 2018, yn y dyfodol yn ffynhonnell bwysig o ddata sy'n benodol i Gymru, gan ddarparu manylion am y refeniw a gesglir mewn modd amserol er mwyn helpu i werthuso pa mor dda y mae'r modelau'n cyd-fynd â'r ffigyrau alldro gan helpu i ddatblygu modelau yn y dyfodol. Felly, dros amser, disgwylir y bydd data gwell ar gael i lywio'r gwaith o ddatblygu rhagolygon refeniw trethi yng Nghymru.

Mae crynodeb o'r ffynonellau data allweddol yn nhabl 2.1, sy'n nodi ffynonellau data penodol am Gymru, yn ogystal â data Awdurdod Cyllid Cymru.

Tabl 2.1: Ffynonellau data allweddol, ar gyfer modelau rhagweld, sy'n nodi data penodol am Gymru

Ffynhonnell data	Data penodol am Gymru	Data nad yw'n benodol am Gymru
Treth Gwarediadau Tirlenwi		
Data gan weithredwyr safleoedd tirlenwi	X	
Data am reoli gwastraff awdurdodau lleol	X	
Gwybodaeth am ddatblygiadau isadeiledd gwastraff	X	
Rhagolwg o'r Mynegai Prisiau Adwerthu		X (rhagolwg OBR)
Treth Trafodiadau Tir		
Trafodion Treth Dir y Dreth Stamp yn 2016/17	X	
Rhagolygon o drafodion eiddo a thwf prisiau		X (rhagolygon twf OBR)
Gwybodaeth am ad-daliadau eiddo ychwanegol	X	X (gwybodaeth o Loegr a'r Alban hefyd)
Amcangyfrifon o newidiadau disgwylidig i brisiau a thrafodion os bydd y gyfradd dreth yn newid		X (gwybodaeth o'r Alban)
Ardrethi Annomestig		
Cyfraniadau a rhyddhadau awdurdodau lleol	X	
Refeniw rhestr ganolog	X	
Gwerthoedd ardrethol	X	
Rhagolwg o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr		X (rhagolwg OBR)
Income Tax		
Arolwg CthEM o ddata incwm Personol	X	
Rhagolwg o gyflogau a thwf cyflogaeth		X (rhagolwg OBR)

Economi Cymru

Mae golwg ar ddyfodol yr economi yn gyffredinol yn llywio'r darlun macro-economaidd ehangach a'r tybiaethau sy'n gyd-destun i'r rhagolygon hyn. Mae rhagolygon derbyniadau treth yn arbennig o ddibynol ar broffil a chyfansoddiad gweithgarwch economaidd. Pe bai newidiadau neu wahaniaethau sylweddol ym mhroffil neu gyfansoddiad gweithgarwch economaidd, byddai effaith ar y tybiaethau a ddefnyddir yn y modelau ar gyfer y trethi datganoledig yng Nghymru sy'n destun yr adroddiad hwn, a chaiff nifer o benderfyniadau rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol eu hymgorffori yn rhan o'r modelau rhagweld, er enghraifft caiff y Lluosydd ar gyfer y rhagolygon Ardrethi Annomestig ei gynyddu gan ragolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Mae'r Deyrnas Unedig yn chwarae rhan bwysig o ran pennu llwybr economi Cymru; ac felly mae gwaith y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wrth ddarparu dadansoddiad annibynnol o gyllid cyhoeddus y Deyrnas Unedig, a rhagolygon ar gyfer economi'r Deyrnas Unedig, yn berthnasol wrth lunio proffil a chyfansoddiad gweithgarwch economaidd. Mae'r rhagolygon a'r tybiaethau hyn o eiddo'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhan o ddarlun macro-economaidd a chyfres o dybiaethau ehangach. Yn absenoldeb gwybodaeth amgen, megis gwybodaeth fanwl sy'n benodol i Gymru, bernir ei bod yn briodol gwneud defnydd o'r penderfyniadau hyn gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Mae crynodeb o benderfyniadau eang rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi'i nodi isod. Yn ogystal â nodi'r penderfyniadau penodol a ddefnyddir ar gyfer y rhagolygon hyn, mae'r penderfyniadau hyn hefyd yn rhoi syniad o gyfeiriad yr economi yn y dyfodol. Caiff y penderfyniadau a ddefnyddiwyd yn uniongyrchol er mwyn cynhyrchu rhagolygon Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad hwn eu dangos â chylch hargrwm coch (O/S). Bydd unrhyw newidiadau i'r rhain gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, neu unrhyw rhagolygon diweddarau canol blwyddyn, yn cael effaith ar ragamcaniadau refeniw Cymru.

Tabl 2.2: Prif benderfynyddion Rhagolwg Cyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hyd 2022/23 (cyhoeddwyd Mawrth 2018)

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/210	2021/22	2022/23
CMC a'i gydrannau					
CMC gwirioneddol (%)	1.5	1.2	1.3	1.4	1.5
CMC tybiannol (%)	3.0	3.2.9	3.0	3.2	3.3
CMC tybiannol (£ biliwn)	2,116	2,177	2,241	2,312	2,389
Gwariant defnyddwyr (%)	3.0	2.8	3.1	3.4	3.5
Prisiau ac enillion					
Dadchwyddwr CMC (%)	1.5	1.6	1.7	1.7	1.8
● Mynegai Prisiau Adwerthu (%)	3.4	3.0	2.9	2.9	3.0
● Mynegai Prisiau Defnyddwyr (%)	2.2	1.8	2.0	2.0	2.0
● Enillion cyfartalog (%)	2.7	2.4	2.6	2.8	3.0
Penderfynyddion cyllidol allweddol					
Cyflogaeth (miliynau)	32.3	32.4	32.5	32.6	32.7
Sector eiddo					
● Prisiau eiddo preswyl (%)	3.3	2.5	2.2	2.5	3.0
● Trafodion eiddo preswyl (000oedd)	1,236	1,260	1,285	1,312	1,344
● Prisiau eiddo masnachol (%)	-0.7	1.6	1.7	1.7	1.8
● Trafodion eiddo masnachol (%)	1.5	1.2	1.3	1.4	1.5
Cyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid					
Cyfradd llog tymor byr (%)	0.9	1.3	1.5	1.7	1.7
Cyfradd gyfnewid Ewro/Sterling	1.14	1.12	1.11	1.10	1.10

Mae rhai newidiadau i ragolygon penderfynyddion Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ers adroddiad Ysgol Busnes Bangor ym mis Rhagfyr. Mae Tabl 2.3 yn dangos newidiadau i benderfynyddion economaidd allweddol y rhagolygon ers adroddiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol ym mis Tachwedd 2017, y gwnaeth Ysgol Busnes Bangor eu cynnwys yn Adroddiad Diweddar Rhagfyr 2017.

Tabl 2.3: Newid ym mhenderfynyddion allweddol Rhagolwg Cyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hyd 2022/2 - newid canran ers y flwyddyn flaenorol (cyhoeddwyd Mawrth 2018)

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/210	2021/22	2022/23
CMC a'i gydrannau					
CMC gwirioneddol (%)	0.1	0.0	0.0	-0.1	-0.1
CMC tybiannol (%)	0.2	0.1	-0.1	-0.2	0.0
CMC tybiannol (£ biliwn)	16	19	17	13	13
Gwariant defnyddwyr (%) (blwyddyn galendr)	0.0	-0.4	-0.1	-0.1	-0.2
Prisiau ac enillion					
Dadchwyddwr CMC (%)	0.0	0.2	0.0	-0.1	0.1
● Mynegai Prisiau Adwerthu (%)	0.4	0.2	0.0	0.0	0.0
● Mynegai Prisiau Defnyddwyr (%)	0.1	0.0	0.0	0.0	0.0
● Enillion cyfartalog (%)	0.5	0.0	-0.1	-0.3	-0.1
Penderfynyddion cyllidol allweddol					
Cyflogaeth (miliynau)	-0.1	0.0	0.0	0.0	0.0
Sector eiddo					
● Prisiau eiddo preswyl (%)	0.6	-0.5	-0.7	-0.9	-0.6
● Trafodion eiddo preswyl (000oedd)	-27	-28	-25	-16	-5
● Prisiau eiddo masnachol (%)	0.0	0.2	-0.1	-0.1	0.0
● Trafodion eiddo masnachol (%)	0.0	0.0	-0.2	-0.2	-0.1
Cyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid					
Cyfradd llog tymor byr (%)	0.1	0.3	0.3	0.3	0.3
Cyfradd gyfnewid Ewro/Sterling	0.02	0.02	0.02	0.02	0.02

Barn ddatganedig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol⁴ yw bod cynnydd tybiannol cronus mewn Cynnyrch Mewnwladol Crynswth rhwng 2016-17 a 2022-23 i fyny 0.3 pwynt canran o gymharu â rhagolwg mis Tachwedd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol⁵. Mae twf gwirioneddol Cynnyrch

⁴Economic and Fiscal Outlook Report (Mawrth 2017) gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gael yn http://cdn.obr.uk/EFO-MarCh_2018.pdf

⁵Economic and Fiscal Outlook Report (Tachwedd 2017) gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gael yn <http://cdn.obr.uk/Nov2017EFOwebversion-2.pdf>

Mewnwladol Crynswth wedi'i ddiwygio i fyny yn y cyfamser, oherwydd bod rhagolygon cryfach o ran yr economi fyd-eang, ond mae'n wannach mewn blynyddoedd diweddarach.

Mae yna lawer o ansicrwydd yn sail i'r rhagolygon: y tybiaethau allweddol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sy'n sail i'r rhagolygon yw:

- y bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Ebrill 2019, gan symud at gyfundrefn fasnach lai agored a threfn ymfudo dynach na'r hyn a fyddai'n wir fel arall; byddai unrhyw ostyngiad o ran trosglwyddiadau gwariant i sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd (ar ôl ystyried cost y setliad ariannol) yn cael ei ailgylchu'n llawn i wariant ychwanegol - mae'r rhagdybiaeth hon yn gyllidol niwtral; nid oes unrhyw newidiadau i'r strwythur nac i aelodaeth systemau treth y mae rheolau UE cyffredin ar eu cyfer (megis TAW a chynllun masnachu allyriadau'r UE neu'r toll daliadau y tybir eu bod yn cael eu casglu ar ran yr UE).
- y bydd amodau credyd yn parhau i fod yn hynod o ymaddasol, er mai'r disgwyl yw y bydd polisi ariannol yn tynhau ychydig yn gyflymach nag a ragdybiwyd yn 2017
- y bydd polisi cyllidol yn tynhau drwy gydol cyfnod y rhagolwg, o ganlyniad i doriadau yng ngwariant y llywodraeth;
- y bydd cynnydd bach yng nghryfder sterling, yn uwch nag y tybiwyd yn 2017;
- y bydd prisiau olew doleri'n uwch na'r hyn a dybiwyd ym mis Tachwedd 2017. Y tu hwnt i'r gorwel dwy flynedd rhagdybir y byddant yn parhau'n gyson mewn termau real; ac
- mae disgwyl y bydd CMC byd-eang a'r galw yn y DU yn cyflymu yn 2018 a 2019 cyn arafu ychydig yn y tymor canolig.

Mae rhagolwg cyllidol a phenderfynyddion cyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cwmpasu'r Deyrnas Unedig gyfan. Mewn gwahanol ffyrdd nid yw economi Cymru yn tracio cyfartaledd y Deyrnas Unedig, ond lle defnyddiwyd penderfynyddion y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol mae Ysgol Busnes Bangor wedi gweithio gyda Thrysorlys Cymru i brofi eu haddasrwydd i Gymru. Ychydig ddata sydd am ragolygon economaidd sy'n benodol i Gymru a chydabyddir hefyd bod amrywiadau sylweddol a gwahaniaethau rhanbarthol yng Nghymru. Mae diffyg gwybodaeth sy'n benodol i Gymru; un anhawster sylweddol yw'r diffyg gwybodaeth am lif masnach Cymru a masnach drawsffiniol. O ystyried hyn, bydd yn bwysig asesu'r costau a'r buddion wrth ddatblygu unrhyw benderfynyddion sy'n benodol i Gymru at ddibenion rhagweld refeniw trethi.

Diweddariad ar argymhellion blaenorol

Argymhelliad 1

Mae'r gwaith o ragweld refeniw o'r trethi hyn sydd newydd eu datganoli yn ei fabandod. Oherwydd hyn, dylid craffu ar unrhyw wallau yn y rhagolygon hyn i werthuso pa mor dda mae'r modelau'n cydfynd â'r ffigyrau alldro. Gall gwerthuso cywirdeb rhagolygon fod yn elfen hanfodol o weithdrefnau rhagweld: mae'n berthnasol at ddibenion monitro ac yn caniatáu gwella rhagolygon trwy ddysgu o wallau'r gorffennol.

Bydd data alldro 2018/19 am drethi datganoledig ar gael ar ôl Mawrth 2019. Unwaith y bydd y data ar gael, gellir ymchwilio i'r gwallau yn y rhagolygon a'r achosion drostynt i helpu i lywio rhagolygon yn y dyfodol. Yn y cyfamser, bydd data refeniw yn y flwyddyn o 2018-19 yn cael ei ystyried a'i asesu yn erbyn y rhagolygon i lywio'r broses ragweld.

Argymhelliad 2

Dylid ystyried y posibilrwydd o ymgymryd â gwaith pellach i ddarparu data penodol am Gymru er mwyn helpu i lywio'r ymarfer rhagweld. Ond cydnabyddir bod hyn yn waith heriol sy'n llyncu amser, ac felly dylid gwerthuso hefyd gostau a buddion unrhyw waith manwl ar hyn.

Bydd casglu'r trethi datganoledig yn golygu y bydd data pellach sy'n benodol i Gymru mewn perthynas â'r trethi hyn yn cael ei gasglu. Ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi bydd hyn yn arbennig o arwyddocaol gan mai ychydig ddata am y dreth tirlenwi yng Nghymru sy'n bodoli ar hyn o bryd, o gofio bod y dreth yn cael ei chasglu heb unrhyw ddynodwyr daearyddol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (Trysorlys Cymru a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi) yn ymchwilio i ddatblygu data ehangach sy'n benodol i Gymru. Mae cysylltiadau gyda Chomisiwn Cyllidol yr Alban, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a chyrrff eraill yn helpu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r setiau data a ddefnyddir i ragweld trethi ac unrhyw ddatblygiadau gan y cyrrff hyn, er mwyn helpu i lywio blaenoriaethau ar gyfer data sy'n benodol i Gymru.

Barn Ysgol Busnes Bangor

Mae ansicrwydd ynghlwm wrth bob rhagolwg economaidd o'r fath ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn y gwaith craffu hwn. Mae data sy'n benodol i Gymru'n cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu'r rhagolygon, ond pan nad oes data o'r fath ar gael, mae'r rhagolygon yn defnyddio nifer o benderfyniadau Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sydd ar gael ar lefel y Deyrnas Unedig yn unig. O ystyried yr wybodaeth sydd ar gael a'r gwaith a wnaed i brofi eu haddasrwydd, bernir bod defnyddio'r penderfyniadau hyn gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn briodol.

Argymhelliad N1

Dylid rhoi ystyriaeth bellach i ymgymryd â gwaith pellach i ddarparu data penodol i Gymru er mwyn helpu i lywio'r ymarfer rhagolygon. Dylid ystyried y posibilrwydd o ddatblygu dull systematig o fesur a deall economi Cymru.

ADRAN 3 - TRETH GWAREDIADAU TIRLENWI

Rhagarweiniad

Cafodd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT) ei chyflwyno fel treth wedi ei datganoli'n llawn yng Nghymru o 1 Ebrill 2018, gan ddisodli Treth Tirlenwi'r Deyrnas Unedig. Yn yr un modd â'r Dreth Tirlenwi, treth amgylcheddol yw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'i nod yw helpu i leihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae'r dreth yn daladwy gan weithredwyr safleoedd tirlenwi ac mae yno 17 o safleoedd tirlenwi wedi'u cofrestru gyda ACC ar hyn o bryd ⁶.

Mae cyfraddau treth gwahanol yn berthnasol i ddau wahanol fath o wastraff; cyfradd safonol a chyfradd is. Mae'r gyfradd is yn berthnasol i warediadau gwastraff nad ydynt yn beryglus, sydd â photensial isel o allyrru nwyon tŷ gwydr, ac sydd â photensial isel o lygru'r amgylchedd tirlenwi. Mae'r gyfradd safonol yn berthnasol i bob gwastraff trethadwy arall.

Anfonwyd tua 9.5 miliwn tonnell o wastraff cyfradd safonol a 10.6 miliwn tonnell o wastraff cyfradd is i safleoedd tirlenwi yn y Deyrnas Unedig yn 2015/16. Er gwaethaf symiau tebyg o wastraff, mae'r gwahaniaeth yn y cyfraddau a ddangosir yn cael effaith sylweddol ar faint o refeiwi a gesglir o'r ddau fath o wastraff. Yn 2016/17 roedd refeiwi'r Deyrnas Unedig o wastraff cyfradd safonol tua £800 miliwn ac yn £28 miliwn o'r gyfradd is, cyn addasu ar gyfer unrhyw gredydau a rhyddhad treth.

I'r Gyllideb Ddrafft 2019/20 mae cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer gwastraff cyfradd safonol a chyfradd is yn parhau i fod yn gyson â chyfraddau Treth Tirlenwi'r Deyrnas Unedig ⁷. Mae'r gyfradd yn Nhabl 3.1 yn diweddarau cyfradd 2018/19 gyda rhagolwg o'r mynegai prisiau adwerthu). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno cyfradd ar gyfer gwarediadau a wneir mewn safleoedd nad ydynt yn safleoedd tirlenwi awdurdodedig - gelwir hyn yn gyfradd gwarediadau heb awdurdod.

Bydd y cyfraddau hyn fel y nodir hwynt isod yn Nhabl 3.1.

⁶ Gweler <https://www.gov.uk/government/publications/landfill-tax-site-operators>.

⁷ Gweler <https://www.gov.uk/government/publications/rates-and-allowances-landfill-tax/landfill-tax-rates-from-1-april-2013>.

Tabl 3.1: Cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer gwastraff cyfradd safonol a chyfradd is 2018/19 a 2019/20 (£ fesul tonnelli)

Cyfnod	2018/19	2019/20
Gwastraff cyfradd safonol	88.95	91.35
Gwastraff cyfradd is	2.80	2.90
Gwarediadau heb awdurdod	133.45	137.00

Rhagolwg o refeniw’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Nid yw'r Dreth Tirlenwi bellach yn gymwys yng Nghymru gan fod y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei disodli o 2018/19 ymlaen. Gosodir rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi fel y’u cynhwysir yng Nghyllideb Ddrafft 2019/20 yn Nhabl 3.2 isod.⁸

Tabl 3.2: Rhagolygon y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2018/19 i 2022/23 (£ miliwn)

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Rhagolwg y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	44	40	36	34	32

Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd refeniw’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gostwng o £44 miliwn yn 2018/19 i £32 miliwn yn 2022/23, gostyngiad o 26 y cant dros y cyfnod. Y cwmp ym y refeniw a gynhyrchir gan wastraff cyfradd safonol yw prif yrrwr y gostyngiad, a rhagwelir y bydd yn gostwng o tua 464,000 tonnelli yn 2018/19 i 294,000 tonnelli yn 2022/23. Mae'r gostyngiad hwn mewn gwastraff cyfradd safonol yn cael ei yrru gan strategaethau Awdurdodau Lleol Cymru i leihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi⁹.

Mae Ysgol Busnes Bangor eisoes wedi cyhoeddi;

- a) Adroddiad Terfynol yr Hydref (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017) sy'n nodi'r methodolegau


⁸ Nid yw'r rhagolygon hyn yn defnyddio'r un sail â'r rhai a gynhyrchir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol gan nad ydynt yn gwneud addasiad ar gyfer y cynllun cymunedau tirlenwi, gan nad yw'r cynllun yn gweithredu fel credyd treth yng Nghymru.

⁹ Rhagwelir y bydd gwastraff cyfradd safonol Awdurdodau Lleol a anfonir i safleoedd tirlenwi yn gostwng 43 y cant rhwng 2018/19 a 2022/23, tra rhagwelir y bydd gwastraff cyfradd safonol na ddaw o'r Awdurdodau Lleol yn gostwng gan ddim ond 34 y cant.

a'r tybiaethau sy'n ymwneud â rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi datganoledig. Dyma oedd yn sail i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018/19 gyda'r cyfraddau treth dros dro, a

- b) Datganiad Diweddar i Adroddiad Terfynol yr Hydref (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017), sy'n ystyried y rhagolygon macro-economaidd newydd a'r diweddariadau a wnaed i'r methodolegau gan Dîm Trysorlys yn dilyn Adroddiad Terfynol yr Hydref.

Mae'r ddau adroddiad uchod wedi cynnwys rhagolwg ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae Ffigur 3.1 yn cymharu gwahanol ragolygon y Dreth Trafodiadau Tir o bob un o'r adroddiadau.

Ffigwr 3.1 - Esblygiad rhagolygon refeniw ar gyfer 2019/20 yn unig (£ miliwn)

Diweddariad ar argymhellion blaenorol

Argymhelliad 3

Argymhellir bod y rhagolygon yn ymgorffori rhywfaint o'r refeniw treth posibl o warediadau heb awdurdod ac yn penderfynu sut y bydd cyfaint gwastraff tirlenwi yn ymateb i gynydd neu ostyngiad yn nifer y safleoedd gwastraff anghyfreithlon.

Ar y gweill - Cafodd Llywodraeth Cymru wybodaeth ar ddull HMRC ar gyfer costio mesur tebyg, a allai ddarparu fframwaith ar gyfer cynhyrchu amcangyfrifon o refeniw o warediadau anawdurdodedig fel datblygiad tymor hwy. Fodd bynnag, bydd angen cyfuno hyn gydag unrhyw newidiadau a wneir unwaith y cytunir ar ymagwedd cydymffurfiaeth ACC tuag at warediadau anawdurdodedig.

Argymhelliad 4

Dylid gwneud gwaith i gysylltu gwastraff o ffynonellau ar wahan i awdurdodau lleol gyda phenderfynyddion economaidd, er mwyn darparu amcangyfrifon o beth fydd hyn yn y dyfodol.

Wedi'i gwblhau - O hydref 2017, bu OBR a HMRC yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gweithgaredd economaidd fel penderfynydd ar gyfer refeniw treth tirlenwi. Daethon nhw i'r casgliad bod effaith fyrdymor ffactorau economaidd ar wastraff tirlenwi yn fach o'i gymharu â'r newid i ffwrdd o safleoedd tirlenwi i ffynonellau rheoli gwastraff eraill. Mae gweithgarwch economaidd yn fwy perthnasol i wastraff sy'n codi yn hytrach na'r gwastraff sy'n cael ei dirlenwi. Ar ôl ymchwilio i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chysylltu gwastraff o ffynonellau eraill i benderfynyddion economaidd. Bydd yn parhau i adolygu'r dull gorau o ragamcanu gwastraff o'r sector hwn.

Argymhelliad 5

Argymhellir defnyddio data yn y flwyddyn i fonitro refeniw trethi ac i lywio rhagolygon, unwaith y daw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi'n weithredol.

Ar y gweill - Cyhoeddwyd canlyniad chwarter cyntaf mis Ebrill i fis Mehefin ym mis Awst 2018 a chymerwyd ystyriaeth i wybodaeth yn y rhagolygon.

Argymhelliad 6

Dylid cynnal cysylltiadau agos ag awdurdodau lleol a'u datblygu ymhellach er mwyn cipio a manteisio ar wybodaeth am gynlluniau rheoli gwastraff yn y dyfodol a allai effeithio ar refferniw trethi.

Wedi'i gwblhau - mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio data CNC gan awdurdodau lleol a chwrdd yn rheolaidd â thîm polisi gwastraff Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn ymwybodol o ddatblygiadau mewn rheoli gwastraff awdurdodau lleol. Dilyniant gydag awdurdodau lleol unigol lle bo angen.

Methodoleg

Her allweddol i ragweld refeniw tirlenwi yw nad yw cyfran hanesyddol Cymru o dderbyniadau treth tirlenwi ar gael. Cynhyrchir rhagolwg y Dreth Gwarediadau Tirlenwi trwy ddefnyddio model sy'n seiliedig ar amcangyfrifon o'r gwastraff cyfradd safonol a'r gwastraff cyfradd is a anfonir i safleoedd tirlenwi Cymru yn y dyfodol. Mae'r rhagolygon yn seiliedig ar y fethodoleg o'r gwaelod i fyny er mwyn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael. Gan nad oes unrhyw wybodaeth ar gael ynglŷn â refeniw hanesyddol y dreth tirlenwi yng Nghymru, mae gwybodaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol Cymru wedi cael ei defnyddio i gynhyrchu blwyddyn sylfaen o'r gwastraff a dderbyniwyd gan safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn 2016/17.

Mae'r holl wybodaeth am wastraff gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gategoreiddio yn unol â Chodau'r Catalog Gwastraff Ewropeaidd (EWC), a ddefnyddir i benderfynu a yw'r gwastraff yn wastraff cyfradd safonol neu'n wastraff cyfradd is. Datblygwyd y dull hwn (a'i wella ar gyfer y rhagolwg hwn) gan Trysorlys Cymru gan nad oes gwybodaeth ar gael ynglŷn â'r rhaniad rhwng gwastraff cyfradd safonol a chyfradd is yng Nghymru o dan y Dreth Tirlenwi; felly awgrymodd Prifysgol Bangor y dylid gwneud gwaith pellach i asesu addasrwydd y dull. Yn dilyn gwneud y gwaith hwnnw, ystyriwyd bod y dull yn addas.

Gwastraff cyfradd safonol

Mae'r model yn rhannu'r gwastraff cyfradd safonol yn wastraff a ddaw o awdurdodau lleol Cymru ac yn wastraff o ffynonellau eraill. Mae'r model yn rhagdybio bod yr holl wastraff sy'n dod o Awdurdodau Lleol Cymru yn wastraff cyfradd safonol. Adroddir bod 148,000 tonnall o wastraff safonol wedi dod o Awdurdodau Lleol Cymru yn 2016/17 gyda'r 425,000 sy'n weddill yn dod naill ai o sector preifat Cymru neu o'r tu allan i Gymru.

Mae chwarter cyntaf data Dreth Gwarediadau Tirlenwi o'r ACC yn awgrymu bod cyfran uwch o wastraff yn gyfradd safonol nag a ragdybir yn y model. Nid yw'r rhesymau dros hyn yn hysbys eto. Efallai mai'r gyfundrefn cydymffurfio ACC sy'n effeithio ar y rhaniad rhwng y gwastraff safonol a'r gyfradd is. Mae hefyd yn bosibl bod y rhaniad o ddata CNC rhwng y gwastraff safonol a chyfradd is yn defnyddio codau EWC yn creu rhywfaint o anghywirdeb. Cynyddwyd lefel gyffredinol y refeniw Dreth Gwarediadau Tirlenwi o ganlyniad i'r wybodaeth alldro gan WRA.

Mae Awdurdodau Lleol Cymru hefyd yn darparu gwybodaeth am eu strategaeth rheoli gwastraff a sut y bydd y swm a anfonir i safleoedd tirlenwi yn cael ei leihau (e.e. trwy allforio neu losgi gwastraff)

dros flynyddoedd y rhagolwg. Bydd gallu Awdurdodau Lleol i gyflawni targedau mewn perthynas â safleoedd tirlenwi yn y dyfodol yn dibynnu, yn rhannol, ar ddatblygu gallu llosgi newydd yng Nghymru, sydd wedi'i gynnwys yn y model. Os na ddarperir strategaeth rheoli gwastraff gan yr Awdurdod Lleol, rhagdybir bod eu gwastraff tirlenwi yn lleihau'n unol â'u tuedd dros y tair blynedd flaenorol.


Mae Trysorlys Cymru mewn cysylltiad â Llywodraethau Cenedlaethol a Lleol i asesu'r risg y bydd oedi wrth ddatblygu gallu llosgi newydd. Mae risgiau o'r fath wedi cael eu hymgorffori yn y model.

Rhagdybir y bydd gwastraff cyfradd safonol gan Awdurdodau Lleol o'r tu allan i Gymru yn gostwng 10% y flwyddyn dros gyfnod y rhagolwg, yn unol â thuedd y Deyrnas Unedig o ran gwastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi.

Gwastraff cyfradd is a gwastraff eithriedig

Mae swm y gwastraff cyfradd is wedi cynyddu 0.2 y cant rhwng 2013/14 a 2016/17. Fodd bynnag, mae'r model yn cynnwys y newid o 0.0 y cant, sy'n dybiaeth resymol tuedd i lawr yn y tymor hir mewn gwastraff cyfradd is yng Nghymru.


Nid yw rhai safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn talu treth tirlenwi oherwydd eu bod yn gymwys i gael eu heithrio. Caiff yr holl wastraff a waredir yn y safleoedd hyn ei ystyried yn wastraff eithriedig yn y model. Mae rhywfaint o wastraff a waredir mewn safleoedd eraill hefyd yn debygol o fod wedi ei eithrio rhag treth, ond nid yw'n bosibl nodi'r gwastraff hwn yn defnyddio'r ffynonellau data sydd ar gael. Gan na all gwastraff eithriedig gynnwys dim ond deunydd cyfradd is, mae effaith hyn ar y rhagolwg yn debygol o fod yn fach.



Ffigwr 3.1 – Dadansoddiad amcangyfrifol o wastraff 2016/17 a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yng Nghymru

Roedd gwahaniaeth rhwng y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi Cymru yn 2015/16 a 2016/17. Cynyddodd gwastraff deunyddiau y mae rhyddhad ar eu cyfer o 328,000 tonnall (20%) yn 2015/16 i 531,000 tonnall (26%), tra bod gwastraff safonol wedi gostwng o 631,000 tonnall (38%) yn 2015/16 i 573,000 tonnall (29%). Ychydig o newid oedd yn swm y gwastraff cyfradd is a'r gwastraff cyfradd safonol arall a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

Mae Ffigwr 3.2 yn dangos y tueddiadau a ragwelir ar gyfer gwastraff cyfradd safonol (Awdurdodau Lleol Cymru ac Awdurdodau Lleol y tu allan i Gymru) a gwastraff cyfradd is. Mae'r gostyngiad yng nghyfanswm y gwastraff cyfradd safonol yn cael ei yrru gan ostyngiad yn swm y gwastraff cyfran safonol sy'n dod o Awdurdodau Lleol Cymru.



Ffigwr 3.2 – Amcangyfrifon a ragwelir ar gyfer gwastraff cyfradd safonol a gwastraff cyfradd is

Gwarediadau heb awdurdod

Mae gan y model y gallu i gynnwys refeniw posibl o warediadau heb awdurdod ond nid yw'n gwneud hynny ar hyn o bryd gan nad oes ond tystiolaeth gyfyngedig iawn i'w defnyddio fel sail i'r rhagolwg. Mae Awdurdod Cyllid Cymru wrthi'n datblygu eu dull strategol o reoli gwarediadau heb awdurdod. Er nad oes digon o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd i lunio barn ar warediadau heb awdurdod, caiff hyn ei adolygu unwaith y cytunir ar strategaeth Awdurdod Cyllid Cymru a bydd y model yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny.

Refeniw Treth

Yn wahanol i Gyllideb Ddrafft 2018/19, ni ddefnyddir rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagolwg y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r rhagolwg Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cynnwys addasiadau alldro i ystyried data refeniw y chwarter cyntaf gan ACC. Mae'r data dros dro i 2017/18 gan CNC yn awgrymu lefel uwch o dirlenwi yn 2017/18, a disgwylir i hynny barhau i hanner cyntaf 2018/19 cyn dychwelyd i'r lefelau a ragwelwyd yn flaenorol erbyn 2019/20.

Cyfrifir refeniw trethi ar gyfer 2018/19 a 2019/20 trwy gymhwyso'r cyfraddau treth a nodir yn Nhabl 3.1 i'r symiau o wastraff cyfradd safonol a gwastraff cyfradd is a ragwelir. Mae'r cyfraddau treth yn

Nhabl 3.1 wedi'u haddasu ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Adwerthu a ragwelir yn Nhabl 2.1 i gyfrifo refeniw trethi yn y blynyddoedd dilynol.

Tabl 3.3 – Rhagolygon refeniw terfynol (£ miliwn)

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Rhagolwg y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	44	40	36	34	32
<i>Cyllideb Derfynol 2018/19</i>	26	24	21	20	N/a

Profi Sensitifrwydd

Dadansoddir sensitifrwydd y model Treth Gwarediadau Tirlenwi trwy dybio nad oes dim newid o'r gwastraff a anfonwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru i safleoedd tirlenwi yn 2016/17 a thrwy amrywio mewnbyn y Mynegai Prisiau Adwerthu. Dangosir canlyniadau'r dadansoddiad sensitifrwydd hwn yn Nhablau 3.4.

Tabl 3.4a - Rhagolygon refeniw (£ miliwn) os nad oes unrhyw newid o'r gwastraff a anfonwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru i safleoedd tirlenwi yn 2016/17

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Rhagolygon refeniw	46	44	43	41	40
<i>Refeniw gwreiddiol</i>	44	40	36	34	32

Tabl 3.4b - cynnydd o 1.5 pwynt canran ym Mynegai Prisiau Adwerthu'r DU (£ miliynau)

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Mynegai Prisiau Adwerthu	5.3%	4.5%	4.4%	4.4%	4.5%
Rhagolygon refeniw	44	40	37	35	34
<i>Refeniw gwreiddiol</i>	44	40	36	34	32

Tabl 3.4c - gostyngiad o 1.5 pwynt canran ym Mynegai Prisiau Adwerthu'r DU (£ miliynau)

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Mynegai Prisiau Adwerthu	2.3%	1.5%	1.4%	1.4%	1.5%
Rhagolygon refeniw	44	40	36	33	31
<i>Refeniw gwreiddiol</i>	44	40	36	34	32

Profwyd hefyd sensitifrwydd y rhagolygon i newidiadau yn y newidiadau blynyddol a ragdybiwyd yng ngwastraff Awdurdodau Lleol y tu allan i Gymru (rhagdybir ar hyn o bryd fod hyn yn -10% yn y model). Byddai cynnydd (neu ostyngiad) o 50% yn y dybiaeth hon yn cael llai na +/- 17% o effaith ar gyfanswm y rhagolwg refeniw a godir rhwng 2018/19 a 2022/23.

Ôl-brofi

Cyfle cyfyngedig sydd i ôl-brofi model y Dreth Gwarediadau Tirlenwi gan nad oes gwybodaeth am refeniw trethi hanesyddol o drethi tirlenwi yng Nghymru.

Un o brif ffactorau rhagolwg refeniw Dreth Gwarediadau Tirlenwi yw faint o wastraff a anfonir gan Awdurdodau Lleol Cymru i safleoedd tirlenwi gan y tybir ei bod yn cael ei raddio safonol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gwybod am gynlluniau rheoli gwastraff Awdurdodau Lleol Cymru, sy'n cyfyngu ar fanteision ôl-brofi'r model.

Barn Ysgol Busnes Bangor ar y rhagolwg

Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan Trysorlys Cymru, mae Ysgol Busnes Bangor o'r farn bod y fethodoleg a ddisgrifir yn Adran 3 yn ddull priodol o ragweld refeniw Treth Gwarediadau Tirlenwi Cymru. Mae'r penderfyniad hwn yn seiliedig ar y drafodaeth gydag academyddion ac ymarferwyr ynghylch tybiaethau damcaniaethol y modelau, gan gynnwys gwybodaeth a ddefnyddiwyd, dadansoddiad dadansoddol o'r modelau, a'r amrywiad yn y rhagolwg refeniw ar gyfer senarios gwahanol.

Mae'r holl fodelau a ddefnyddiwyd gan Trysorlys Cymru i gynhyrchu'r rhagolwg hwn wedi cael eu hatgynhyrchu'n annibynnol gan Ysgol Busnes Bangor fel rhan o'r broses ddilysu. Gwelir rhagolwg terfynol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn Nhabl 3.2.

Argymhelliad N2

Trysorlys Cymru i barhau i gydweithio'n agos â'r ACC i ymgorffori gwybodaeth berthnasol i'r broses rhagweld lle bo modd.

Argymhelliad N3

Trysorlys Cymru i sefydlu proses fonitro i asesu'r perfformiad ac addasrwydd parhaus y model ar gyfer rhagweld refeniw. Mae hyn yn cynnwys dull o brofi ôl-brofi'r modelau sy'n seiliedig ar wybodaeth o'r ACC pan fydd digon o ddata ar gael.

ADRAN 5 – TRETH TRAFODIADAU TIR

Rhagarweiniad

Cafodd y Dreth Trafodiadau Tir ei chyflwyno fel treth wedi ei datganoli’n llawn yng Nghymru o 1 Ebrill 2018, gan ddisodli Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru. Yn yr un modd â Threth Dir y Dreth Stamp, cymhwysir y Dreth Trafodiadau Tir i drafodion tir ac adeiladau preswyl a masnachol (gan gynnwys pryniannau masnachol a phrydlesi masnachol) lle caffaelir buddiant trethadwy. Mae cyfraddau a throthwyon gwahanol yn berthnasol i bob un o’r pedwar segment gwahanol; prif gyfraddau preswyl, eiddo preswyl ychwanegol, prif gyfraddau dibreswyl a rhenti prydlesol dibreswyl. Mae cyfraddau a throthwyon y Dreth Trafodiadau Tir wedi eu nodi isod yn Nhabl 4.1.

Tabl 4.1a: Cyfraddau a bandiau’r Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer trafodion preswyl

Pris prynu/premiwm prydles neu werth trosglwyddo	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir	Cyfradd eiddo ychwanegol
Hyd at £180,000	Sero	3.0%
Dros £180,000 hyd £250,000	3.5%	6.5%
Dros £250,000 hyd £400,000	5.0%	8.0%
Dros £400,000 hyd £750,000	7.5%	10.5%
Dros £750,000 hyd £1,500,000	10.0%	13.0%
Dros £1,500,000	12.0%	15.0%

Tabl 4.1b: Cyfraddau a bandiau’r Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer trafodion eiddo dibreswyl

Pris/gwerth	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir	Gwerth presennol net y rhent	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
Hyd at £150,000	Sero	Hyd at £150,000	Sero
Dros £150,000 hyd £250,000	1.0%	Dros £150,000 hyd £2,000,000	1.0%
Dros £250,000 hyd £1,000,000	5.0%	Dros £2,000,000	2.0%
Dros £1,000,000	6.0%		

Rhagolwg refeniw'r Dreth Trafodiadau Tir

Nid yw Treth Dir y Dreth Stamp bellach yn gymwys yng Nghymru gan fod y Dreth Trafodiadau Tir wedi ei disodli o 2018/19 ymlaen. Gosodir rhagolygon refeniw'r Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer 2018/19 hyd 2022/23 gan Trysorlys Cymru fel y'u cynhwysir yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019/20 yn Nhabl 4.2 isod.

Tabl 4.2: Rhagolygon pum mlynedd y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer 2018/19 hyd 2022/23 (£ miliwn)


Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Prif gyfraddau	91	105	115	127	143
Preswyl Ychwanegol	63	62	60	63	67
Cyfanswm	154	167	175	190	209
Dibreswyl Cyfanswm	85	91	94	96	100
Cyfanswm	240	258	269	287	309

Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd refeniw'r Dreth Trafodiadau Tir yn codi o £240 miliwn yn 2018/19 i £309 miliwn yn 2022/23, cynnydd o 29 y cant, yn seiliedig ar y senario sy'n cael ei disgrifio yn Adran 2. Y refeniw a gynhyrchir gan brif gyfraddau preswyl yw prif yrrwr y cynnydd hwn, a rhagwelir y bydd yn cynyddu o £91 miliwn yn 2018/19 i £143 miliwn yn 2022/23. Mae refeniw o brif gyfraddau preswyl yn cyfrif am 38 y cant o gyfanswm refeniw'r Dreth Trafodiadau Tir yn 2018/19. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 46 y cant erbyn 2022/23. Y twf cadarnhaol ym mhrisiau eiddo preswyl dros gyfnod y rhagolwg yw prif yrrwr y cynnydd mewn refeniw.

Mae Ysgol Busnes Bangor eisoes wedi cyhoeddi;

- a) Adroddiad yr Hydref (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017) sy'n nodi'r methodolegau a'r tybiaethau sy'n ymwneud â rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi datganoledig. Dyma oedd yn sail i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018/19 a oedd yn nodi'r cyfraddau treth dros dro, a
- b) Datganiad Diweddaru i Adroddiad Terfynol yr Hydref (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017), sy'n ystyried cyfraddau treth terfynol y Dreth Trafodiadau Tir a'r rhagolygon macro-economaidd newydd a'r diweddariadau a wnaed i'r methodolegau gan Trysorlys Cymru yn dilyn Adroddiad yr Hydref.

Mae'r ddau adroddiad uchod wedi cynnwys rhagolwg ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir. Mae Ffigwr 4.1 yn cymharu gwahanol ragolygon y Dreth Trafodiadau Tir o bob un o'r adroddiadau.



Ffigwr 4.1 - Rhagolygon refeniw'r Dreth Trafodiadau Tir


Mae'r newid yn y rhagolwg ers Adroddiad Terfynol yr Hydref yn adlewyrchu'r gwelliannau a wnaed i'r fethodoleg a rhagolygon economaidd sy'n gwaethygu. Fel y disgwyliwyd, mae'r rhagolwg ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2019/20 yn dilyn llwybr tebyg yn y dyfodol i'r hyn a gafodd ei gynnwys yn y Datganiad Diweddarau.


Mae'r newidiadau yn y rhagolygon yn adlewyrchu'r newidiadau i'r amgylchedd economaidd a'r diweddariadau i'r modelau rhagweld. Mae diweddariadau hysbys i'r fethodoleg yn cynnwys;

- Addasiad i'r rhagolwg refeniw prif gyfraddau preswyl terfynol i gymryd i ystyriaeth alldro yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o £ 10 miliwn y flwyddyn mewn rhagolygon refeniw.
- Yn dilyn trafodaeth helaeth, mae'r modelau yn parhau i atodi'r rhagolygon i amcangyfrifon ar gyfer alldro 2017/18.
- Mae newid yn y modd y caiff ad-daliadau o groniadau cronni eu talu i arian parod (yn y model eiddo preswyl ychwanegol). Mae hyn i sicrhau cysondeb â chyfoedion perthnasol ac arfer gorau.


Disgrifir newidiadau i'r amgylchedd economaidd a ragwelir yn Adran 2. Mae Tabl 4.3 yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gydag argymhellion a roddwyd gan Ysgol Fusnes Bangor yn Adroddiad Terfynol Hydref. Mae'r newidiadau hyn i'r fethodoleg ragweld yn cael eu gwneud i wella cywirdeb y broses ragweld. Mae esblygiad y refeniw treth a ragwelir o fodelau treth trafodiadau tir i'w weld yn Ffigwr 4.2.

Mae esblygiad y refeniw treth a ragwelir o fodelau treth trafodion tir i'w weld yn Ffigur 4.2. Mae'r pwyntiau uchod wedi'u cynnwys yn y categori 'Diweddariad Modelu'.

Ffigwr 4.2a - Esblygiad cyfanswm y refeniw treth a ragwelir o'r model prif gyfraddau preswyl

Ffigwr 4.2b - Esblygiad cyfanswm y refeniw treth a ragwelir o'r model eiddo preswyl ychwanegol

Ffigwr 4.2c - Esblygiad cyfanswm y refeniw treth a ragwelir o'r model eiddo dibreswyl



Diweddariad ar argymhellion blaenorol

Argymhelliad 7

Bydd angen rhagor o fireinio ar y model a ddefnyddir i wneud rhagolwg o reffeniw eiddo preswyl ychwanegol unwaith y bydd rhagor o wybodaeth berthnasol ar gael am drafodiadau sy'n ddarostyngedig i'r gyfradd hon ac am y trafodiadau sy'n cael eu had-dalu.

Wedi'i gwblhau - Rhoddwyd model wedi ei wella ar waith ar gyfer Cyllideb derfynol 2018/19 yn seiliedig ar ddata alldro manwl ar eiddo preswyl ychwanegol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan CthEM ar ôl llunio rhagolwg y Gyllideb ddrafft. Mae'r dull modelu yn gyson â phrif gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir.

Argymhelliad 8

Argymhellir y dylid cyfrifo elastigeddau penodol Cymru pan fydd data addas ar gael.

Ar y gweill - Diweddarwyd elastigeddau cyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer y Gyllideb derfynol, yn unol ag elastigeddau diweddaraf y Deyrnas Unedig a ddefnyddiwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Mae'r elastigeddau diweddaraf hyn yn seiliedig yn bennaf ar ddata'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys trafodion yng Nghymru. Mae'r newid yn y cyfraddau treth yng Nghymru rhwng Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Trafodiadau Tir yn rhoi cyfle i ddadansoddi effeithiau newidiadau i gyfraddau treth yng Nghymru ac o bosibl i amcangyfrif elastigeddau penodol yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei archwilio pan fydd data addas ar gael am y Dreth Trafodiadau Tir.

Methodoleg

Cynhyrchir rhagolwg Llywodraeth Cymru ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir trwy ddefnyddio pedwar model gwahanol: model prif gyfraddau preswyl, model cyfraddau eiddo preswyl ychwanegol, model prif gyfraddau dibreswyl, a model rhent prydlesol dibreswyl.

Model prif gyfraddau preswyl

Mae'r model prif gyfraddau preswyl yn defnyddio methodoleg o'r gwaelod i fyny i ragweld y refeniw a gynhyrchir o'r segment hwn o'r dreth. Defnyddir methodoleg o'r gwaelod i fyny i ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael ac i sicrhau bod y model yn cipio'r dosraniad prisiau.


Defnyddir gwybodaeth Datalab CThEM (setiau data gweinyddol) i gynhyrchu pris dosraniad oddi wrth amledd biniau prisiau trafodiadau prif gyfraddau preswyl yng Nghymru yn ystod cyfnod 2016/17. Mae'r dosraniad hwn yn cynnwys gwybodaeth am nifer y trafodion trethadwy (ac eithrio lle ceir rhyddhad neu eithriad), cyfanswm y gwerth trethadwy a chyfanswm y dreth a dalwyd yn ystod y cyfnod. Mae'r data yn cynnwys mwy na 50,000 o drafodion eiddo yng Nghymru yn ystod 2016/17 gyda gwerth cyfartalog o £167 o filoedd¹⁰.

Dewisir y biniau prisiau i dynnu'r wybodaeth fwyaf o'r dosraniadau pris wrth barhau i gynnal ei siâp. Dadansoddir y dosraniad pris hwn yn nhermau 5 mil a 10 mil o finiau. Er bod y biniau prisiau'n lledu wrth i'r pris gynyddu, nid yw hyn yn effeithio'n arwyddocaol ar berfformiad y model¹¹.


Defnyddir y dosraniad pris i gynhyrchu blwyddyn sylfaen y bydd refeniw yn y dyfodol yn cael ei ddeillio ohoni. Mae Ffigwr 4.3 yn dangos siâp y dosraniad o ran nifer y trafodion fesul bin a chyfanswm gwerthoedd eiddo fesul bin.

¹⁰ Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar setiau data gweinyddol CthEM, a allai fod yn wahanol i Ystadegau Treth Dir y Dreth Stamp CthEM 2016/17.

¹¹ Mae'r biniau prisiau'n newid maint tuag at ben uchaf y dosraniad.



Ffigwr 4.3a – Dosraniad blwyddyn sylfaen (nifer y trafodion fesul bin)



Ffigwr 4.3b – Dosraniad blwyddyn sylfaen (cyfanswm gwerthoedd eiddo fesul bin)

Mae'r dosraniadau yn Ffigwr 4.3a a Ffigwr 4.3b wedi'u haddasu i gymryd i ystyriaeth y twf a ragwelir ym mhrisiau eiddo preswyl a'r twf a ragwelir yn nhrafodion eiddo preswyl. Mae nifer y trafodion fesul bin (Ffigwr 4.3a) wedi'i addasu i gymryd i ystyriaeth dwf yn y trafodion yn y dyfodol. Mae cyfanswm gwerthoedd eiddo fesul bin (Ffigwr 4.3b) wedi'i addasu i gymryd i ystyriaeth dwf mewn trafodion a thwf ym mhrisiau eiddo preswyl yn y dyfodol.

Defnyddir rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dwf trafodion a phrisiau eiddo preswyl ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan fel mewnbynnu i'r model prif gyfraddau preswyl. Mae twf trafodion a phrisiau 2017/18 wedi'u haddasu i fod yn seiliedig ar ddata alldro Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru o wybodaeth rheoli CthEM. Mae trafodion eiddo preswyl yng Nghymru yn dilyn tueddiad tebyg i'r rhai yn y Deyrnas Unedig. Defnyddir dadansoddiad cydberthyniad i ddangos cryfder y berthynas hon gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol¹². 0.98 yw'r cydberthyniad rhwng twf trafodion eiddo preswyl y Deyrnas Unedig a Chymru, sy'n awgrymu perthynas gref rhwng y ddwy gyfres¹³. Mae marchnad eiddo preswyl y Deyrnas Unedig yn debygol o gael ei dylanwadu'n fawr gan farchnad eiddo Llundain, sydd yn debygol o gael ei dylanwadu gan dueddiadau byd-eang ac nid hanfodion economaidd cenedlaethol. Er hyn, 0.98 yw'r cydberthyniad rhwng twf prisiau preswyl y Deyrnas Unedig a Chymru, sy'n awgrymu perthynas gref rhwng y ddwy gyfres¹⁴.

Gofynnodd Ysgol Busnes Bangor i Drysorlys Cymru ystyried penderfyniadau economaidd o ffynonellau eraill ar gyfer y model hwn. O ystyried y berthynas bositif gref rhwng y cyfresi gwahanol a'r rhesymeg economaidd, ystyrir bod rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn addas i'w mewnbynnu i'r model prif gyfraddau preswyl. Rhoddir rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn Nhabl 4.4.

Tabl 4.4 - Rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dwf prisiau a thrafodion preswyl y DU 2018/19 hyd 2022/23

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf trafodion	1.1%	1.9%	2.0%	2.1%	2.4%
Twf prisiau	3.3%	2.5%	2.2%	2.5%	3.0%

¹² Mesur o gryfder y berthynas rhwng dwy gyfres yw cydberthyniad a gall fod yn unrhyw werth rhwng +1 a -1. Mae cydberthyniad o +1 yn dangos perthynas gadarnhaol berffaith rhwng y ddwy gyfres tra bod cydberthyniad o -1 yn dangos perthynas negyddol berffaith.

¹³ Cyfrifir y cydberthyniad hwn gan ddefnyddio twf trafodion tai blyneddol ar sail chwarterol yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru rhwng Chwarter 2 2006 a Chwarter 2 2017.

¹⁴ Cyfrifir y cydberthyniad hwn gan ddefnyddio twf prisiau tai blyneddol ar sail chwarterol yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru rhwng Chwarter 1 2006 a Chwarter 2 2017.

Data alldro wedi ei amcangyfrif yw twf trafodion a phrisiau preswyl 2017/18 a ddefnyddir yn y model. Cyfrifir refeniw trethi trwy gymhwyso'r cyfraddau treth a nodir yn Nhabl 4.1a i'r rhagolygon o ddosraniadau trafodion a gwerth. Mae ffwythiannau'r model yn gallu ymgorffori effaith newid ymddygiad trwy elastigedd trafodion, elastigedd prisiau a gweithgarwch ataliol. Mae'r tri hyn yn cipio newid ymddygiad o ganlyniad i newid mewn cyfraddau a bandiau treth.

Mae ffwythiannau'r model yn gallu ymgorffori effaith newid ymddygiad trwy elastigedd trafodion a phrisiau, sy'n cael eu cymhwyso'n fanylach (h.y. lefel bin). Fodd bynnag, nid oes gofyniad i wneud hyn yn y rhagolwg trethi 2019/20 hwn, gan nad oes unrhyw newidiadau yn y cyfraddau treth.

Gwneir addasiad i'r rhagolygon refeniw a gymhwysir i bob blwyddyn sydd i ddod. Mae'r addasiad yn cymryd i ystyriaeth y gwahaniaeth rhwng refeniw Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru ar gyfer amcangyfrifon alldro 2017/18 a'r swm wedi ei gyfrifo ar sail y fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer y model Treth Trafodiadau Tir ar gyfer 2017/18. Gwneir dyfarniad ar unrhyw wahaniaethau rhwng y rhagolwg ac amcangyfrif yr alldro ar gyfer 2017/18 ynglŷn â faint o'r addasiad hwn ddylai fod yn berthnasol yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae'r rhagolygon yn elwa o ystyried data alldro yn ystod y flwyddyn sydd ar gael gan ACC. Mae hyn yn sicrhau bod y rhagolygon yn seiliedig ar yr holl wybodaeth addas sydd ar gael.

Dadansoddir sensitifrwydd y model prif gyfraddau preswyl trwy amrywio mewnbynnau economaidd (Tabl 4.4) y model. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd hyn yn rhoi syniad o sut y bydd y refeniw yn amrywio os bydd y senario economaidd yn newid. Gwelir canlyniadau'r dadansoddiadau sensitifrwydd hyn yn Nhabl 4.6.

Tabl 4.6a – 2.5 pwynt canran o gynnydd yn y rhagolygon o dwf trafodion a phrisiau preswyl y DU

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf trafodion	3.6%	4.4%	4.5%	4.6%	4.9%
Twf prisiau	5.8%	5.0%	4.7%	5.0%	5.5%
Rhagolygon refeniw	100	127	153	186	228
<i>Rhagolwg gwreiddiol</i>	91	105	115	127	143

Tabl 4.6b – 2.5 pwynt canran o ostyngiad yn y rhagolygon o dwf trafodion a phrisiau preswyl y DU

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf trafodion	-1.4%	-0.6%	-0.5%	-0.4%	-0.1%
Twf prisiau	0.8%	0.0%	-0.3%	0.0%	0.5%
Rhagolygon refeniw	83	86	84	84	85
<i>Rhagolwg gwreiddiol</i>	91	105	115	127	143

Gwnaed dadansoddiad sensitifrwydd hefyd ar gyfer newidiadau yn yr effeithiau ymddygiadol.

Ychydig iawn o effaith a gafodd newidiadau yn yr effeithiau ymddygiadol ar y rhagolwg refeniw.

Model eiddo preswyl ychwanegol


Mae'r model eiddo preswyl ychwanegol yn defnyddio methodoleg o'r gwaelod i fyny i ragweld y refeniw a gynhyrchir o'r segment hwn o'r Dreth Trafodiadau Tir. Defnyddir methodoleg o'r gwaelod i fyny i ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael ac i sicrhau bod y model yn cipio'r dosraniad prisiau.

Defnyddir gwybodaeth Datalab CthEM (setiau data gweinyddol) i gynhyrchu pris dosraniad oddi wrth amledd biniau prisiau cyfraddau eiddo preswyl ychwanegol a werthwyd yng Nghymru yn ystod cyfnod 2016/17. Mae'r dosraniad hwn yn cynnwys gwybodaeth am nifer y trafodion trethadwy (ac eithrio lle ceir rhyddhad neu eithriad), cyfanswm y gwerth trethadwy a chyfanswm y dreth a dalwyd yn ystod y cyfnod. Mae'r data yn cynnwys mwy na 11,000 o drafodion eiddo yng Nghymru yn ystod 2016/17 gyda gwerth cyfartalog o £153 o filoedd.


Dewisir y biniau prisiau i dynnu'r wybodaeth fwyaf o'r dosraniad pris wrth barhau i gynnal ei siâp. Dadansoddir y dosraniad pris yn nhermau 5 mil a 10 mil o finiau. Er bod y biniau prisiau'n lledu wrth i'r pris gynyddu, nid yw hyn yn effeithio'n arwyddocaol ar berfformiad y model¹⁵.

Defnyddir y dosraniad pris i gynhyrchu blwyddyn sylfaen y bydd refeniw yn y dyfodol yn cael ei ddeillio ohoni. Mae Ffigwr 4.4 yn dangos siâp y dosraniad o ran nifer y trafodion fesul bin a chyfanswm gwerthoedd eiddo fesul bin.

¹⁵ Mae'r biniau prisiau'n newid maint tuag at ben uchaf y dosraniad.



Ffigwr 4.4a – Dosraniad blwyddyn sylfaen (nifer y trafodion fesul bin)



Ffigwr 4.4b – Dosraniad blwyddyn sylfaen (cyfanswm gwerthoedd eiddo fesul bin)

Mae'r dosraniadau yn Ffigwr 4.4a a Ffigwr 4.4b wedi'u haddasu i gymryd i ystyriaeth y twf a ragwelir ym mhrisiau eiddo preswyl ychwanegol a'r twf a ragwelir yn nhrefodion eiddo preswyl. Mae nifer y trafodion fesul bin (Ffigwr 4.4a) wedi'i addasu i gymryd i ystyriaeth dwf yn y trafodion yn y dyfodol. Mae cyfanswm gwerthoedd eiddo fesul bin (Ffigwr 4.4b) wedi'i addasu i gymryd i ystyriaeth dwf mewn trafodion a thwf ym mhrisiau eiddo preswyl yn y dyfodol.

Defnyddir rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dwf trafodion a phrisiau eiddo preswyl ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan fel mewnbynnu i'r model eiddo preswyl ychwanegol. Mae twf trafodion a phrisiau 2017/18 wedi'u haddasu i fod yn seiliedig ar amcangyfrif o ddata alldro Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru. Mae trafodion preswyl Cymru yn dilyn tuedd debyg i rai'r Deyrnas Unedig, sy'n awgrymu perthynas gref rhwng y ddwy gyfres.

Gofynnodd Ysgol Busnes Bangor i Drysorlys Cymru ystyried penderfyniadau economaidd o ffynonellau eraill ar gyfer y model hwn. O ystyried y berthynas gadarnhaol gref rhwng y cyfresi gwahanol a'r rhesymeg economaidd, ystyrir bod rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn addas i'w mewnbynnu i'r model eiddo preswyl ychwanegol. Rhoddir rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn Nhabl 4.7.

Tabl 4.7 - Rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dwf prisiau a thrafodion preswyl y DU 2018/19 hyd 2022/23

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf trafodion	1.1%	1.9%	2.0%	2.1%	2.4%
Twf prisiau	3.3%	2.5%	2.2%	2.5%	3.0%

Mae twf trafodion a phrisiau preswyl 2017/18 a ddefnyddir yn y model yn seiliedig ar amcangyfrif o ddata alldro. Cyfrifir refeniw trethi trwy gymhwysu'r cyfraddau treth a nodir yn Nhabl 4.1a i'r rhagolygon o ddosraniadau trafodion a gwerth. Mae ffwythiannau'r model yn gallu ymgorffori effaith newid ymddygiad trwy elastigedd trafodion, elastigedd prisiau a gweithgarwch ataliol. Mae'r tri hyn yn cipio newid ymddygiad o ganlyniad i newid mewn cyfraddau a bandiau treth.

Gwneir addasiad i'r rhagolwg refeniw a gymhwysir i bob blwyddyn sydd i ddod. Gwneir addasiad lefel i ystyried y gwahaniaeth i'r amcangyfrif o refeniw alldro Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru ar gyfer 2017/18.

Mae rhan olaf y model yn ystyried tybiaethau ynghylch y gyfradd ad-dalu (8 y cant o refeniw ym mlwyddyn 1, 6 y cant ym mlwyddyn 2 a 3) sydd wedi ei chymhwyso i holl flynyddoedd y rhagolwg.

Dadansoddir sensitifrwydd y model eiddo preswyl ychwanegol trwy amrywio mewnbynnau economaidd (Tabl 4.7) y model. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd hyn yn rhoi syniad o sut y bydd y refeniw'n amrywio os bydd y senario economaidd yn newid. Dangosir canlyniadau'r dadansoddiadau sensitifrwydd hyn yn Nhabl 4.9.

Tabl 4.9a – 2.5 pwynt canran o gynnydd yn rhagolygon twf trafodion a phrisiau preswyl y DU

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf trafodion	3.6%	4.4%	4.5%	4.6%	4.9%
Twf prisiau	5.8%	5.0%	4.7%	5.0%	5.5%
Rhagolygon refeniw	66	68	70	77	86
<i>Rhagolwg gwreiddiol</i>	63	62	60	63	67

Tabl 4.9b – 2.5 pwynt canran o ostyngiad yn rhagolygon twf trafodion a phrisiau preswyl y DU

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf trafodion	-1.4%	-0.6%	-0.5%	-0.4%	-0.1%
Twf prisiau	0.8%	0.0%	-0.3%	0.0%	0.5%
Rhagolygon refeniw	60	56	51	51	51
<i>Rhagolwg gwreiddiol</i>	63	62	60	63	67

Gwnaed dadansoddiad sensitifrwydd hefyd ar gyfer newidiadau yn yr effeithiau ymddygiadol. Ychydig iawn o effaith a gafodd newidiadau yn yr effeithiau ymddygiadol ar y rhagolwg refeniw.


Model prif gyfraddau dibreswyl

Mae'r model prif gyfraddau dibreswyl yn defnyddio methodoleg o'r gwaelod i fyny i ragweld y refeniw a gynhyrchir o'r segment hwn o Dreth Trafodiadau Tir. Defnyddir methodoleg o'r gwaelod i fyny i sicrhau bod y model yn cipio'r dosraniad prisiau.


Defnyddir gwybodaeth Datalab CthEM (setiau data gweinyddol) i gynhyrchu biniau prisiau amledl o'r dosraniad prisiau yn seiliedig ar yr eiddo dibreswyl sy'n berthnasol ar gyfer y prif gyfraddau dibreswyl a werthwyd yng Nghymru yn ystod cyfnod 2016/17. Mae'r dosraniad hwn yn cynnwys

gwybodaeth am dros 4,000 o draffodion (ac eithrio lle ceir rhyddhad neu eithriad), cyfanswm y gwerth trethadwy a chyfanswm y dreth a dalwyd yn ystod y cyfnod, gyda gwerth cyfartalog o dros £400 mil.

Dewisir y biniau prisiau i dynnu'r wybodaeth fwyaf o'r dosraniadau pris wrth barhau i gynnal ei siâp. Dadansoddir y dosraniad pris hwn yn nhermau 25 mil, 50 mil, a 100 mil, gyda rhai mwy i gipio pen uchaf y dosraniad. Er bod y biniau prisiau'n lledu wrth i'r pris gynyddu, nid yw hyn yn effeithio'n arwyddocaol ar siâp y dosraniad. Defnyddir y dosraniad pris i gynhyrchu blwyddyn sylfaen y bydd referniw yn y dyfodol yn cael ei ddeillio ohoni. Mae Ffigwr 4.5 yn dangos siâp y dosraniad yn nhermau nifer y trafodion, cyfanswm gwerthoedd eiddo fesul bin, a swm y referniw treth.



Ffigwr 4.5a – Dosraniad blwyddyn sylfaen (nifer y trafodion fesul bin)



Ffigwr 4.5a – Dosraniad blwyddyn sylfaen (cyfanswm gwerthoedd eiddo fesul bin)

Mae'r dosraniadau yn Ffigwr 4.5a a Ffigwr 4.5b wedi'u haddasu i gymryd i ystyriaeth y twf a ragwelir ym mhrisiau eiddo dibreswyl a'r twf a ragwelir yn nhrefnion eiddo dibreswyl. Mae nifer y trafodion fesul bin (Ffigwr 4.5a) wedi'i addasu i gymryd i ystyriaeth dwf yn y trafodion yn y dyfodol. Mae cyfanswm gwerthoedd eiddo fesul bin (Ffigwr 4.5b) wedi'i addasu i gymryd i ystyriaeth dwf yn nhrefnion ac ym mhrisiau eiddo dibreswyl yn y dyfodol.

Defnyddir rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dwf trafodion a phrisiau prif gyfraddau dibreswyl ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan fel mewnbynnau i'r model prif gyfraddau dibreswyl. Mae twf trafodion a phrisiau 2017/18 wedi'u haddasu i fod yn seiliedig ar amcangyfrif o ddata alldro Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru. Mae trafodion prif gyfraddau dibreswyl yng Nghymru yn dilyn tuedd debyg i rai'r Deyrnas Unedig. 0.94 yw'r cydberthyniad rhwng twf trafodion masnachol y Deyrnas Unedig a Chymru, sy'n awgrymu perthynas gref iawn rhwng y ddwy gyfres¹⁶. Nid oes cyfres amser prisiau dibreswyl ar gael ar gyfer Cymru ac felly ni ellir cyfrifo mesur cydberthyniad. Ystyriwyd penderfynyddion economaidd pellach o ffynonellau eraill, fel yr awgrymodd Ysgol Busnes Bangor. Fodd bynnag, nifer cyfyngedig o ffynonellau sydd ar eu cyfer, o leiaf ar lefel Cymru. Yn absenoldeb model macro-economaidd i Gymru ac o ystyried y rhesymeg economaidd, mae rhagolygon y

¹⁶ Cyfrifir y cydberthyniad hwn gan ddefnyddio twf trafodion masnachol blyneddol ar sail chwarterol yn y DU ac yng Nghymru rhwng Chwarter 1 2006 a Chwarter 2 2017.

Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn addas i'w mewnbynnu i'r model prif gyfraddau dibreswyl. Rhoddir rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn Nhabl 4.10.

Tabl 4.10 - Rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dwf prisiau a thrafodion dibreswyl y DU 2018/19 hyd 2022/23

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf trafodion	1.5%	1.2%	1.3%	1.4%	1.5%
Twf prisiau	-0.7%	1.6%	1.7%	1.7%	1.8%

Cyfrifir refeniw trethi trwy gymhwyso'r cyfraddau treth a nodir yn Nhabl 4.1b i'r rhagolygon o ddosraniadau trafodion a gwerth. Mae ffwythiannau'r model yn gallu ymgorffori effaith newid ymddygiad trwy fesurau elastigedd trafodion ac elastigedd prisiau. Mae'r tri hyn yn cipio newidiadau mewn ymddygiad o ganlyniad i newidiadau mewn cyfraddau a bandiau treth.

Gwneir addasiad i'r rhagolwg refeniw a gymhwysir i bob blwyddyn sydd i ddod, fel a wnaed gyda'r rhagolwg preswyl. Gwneir addasiad lefel i ystyried y gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrif o refeniw alldro Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru ar gyfer 2017/18.

Dadansoddir sensitifrwydd y prif gyfraddau dibreswyl a'r modelau prydles rhent gyda'i gilydd gan eu bod yn defnyddio'r un penderfynyddion ac oherwydd bod maint cymharol y refeniw rhent prydlesol yn fach.

Model rhent prydlesol dibreswyl


Mae'r model rhent prydlesol dibreswyl yn defnyddio methodoleg o'r gwaelod i fyny i ragweld y refeniw a gynhyrchir o'r segment hwn o'r Dreth Trafodiadau Tir. Defnyddir methodoleg o'r gwaelod i fyny i sicrhau bod y model yn cipio'r dosraniad prisiau.

Defnyddir gwybodaeth Datalab CThEM (setiau data gweinyddol) i gynhyrchu biniau prisiau amledd o'r dosraniad prisiau yn seiliedig ar yr eiddo prydlesol dibreswyl a fasnachwyd yng Nghymru yn ystod cyfnod 2016/17. Mae'r dosraniad hwn yn cynnwys gwybodaeth am bron i 2,000 o drafodion trethadwy (ac eithrio lle ceir rhyddhad neu eithriad), cyfanswm y gwerth trethadwy a chyfanswm y

dreth a dalwyd yn ystod y cyfnod. Gwerth presennol net o tua £460 mil oedd gwerth cyfartalog y prydlesi yn y model¹⁷.

Dewisir y biniau prisiau i dynnu'r wybodaeth fwyaf o'r dosraniadau pris wrth barhau i gynnal ei siâp. Dewisir lledau bin priodol i ddadansoddi'r dosraniad pris hwn¹⁸.


Defnyddir y dosraniad pris i gynhyrchu blwyddyn sylfaen y bydd refeniw yn y dyfodol yn cael ei ddeillio ohoni. Mae Ffigwr 4.6 yn dangos siâp y dosraniad o ran nifer y trafodion, cyfanswm gwerthoedd eiddo fesul bin, a swm y refeniw treth.



Ffigwr 4.6a – Dosraniad blwyddyn sylfaen (nifer y trafodion fesul bin)

¹⁷ Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar setiau data gweinyddol CthEM, a allai fod yn wahanol i Ystadegau Treth Dir y Dreth Stamp CthEM 2015/16.

¹⁸ Mae'r biniau prisiau'n newid maint tuag at ben uchaf y dosraniad.



Ffigwr 4.6b – Dosraniad blwyddyn sylfaen (cyfanswm gwerthoedd prydlesi fesul bin)

Mae'r dosraniadau yn Ffigwr 4.6a a Ffigwr 4.6b wedi'u haddasu i gymryd i ystyriaeth y rhagolygon o ran twf trafodion a phrisiau, sef y prif yrwyr newid mewn prydlesi. Caiff gwerth presennol net prydlesi fesul bin ei addasu yn ôl rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dwf prisiau masnachol. Mae nifer y trafodion fesul bin (Ffigwr 4.6a) wedi'i addasu yn ôl rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dwf trafodion masnachol. Mae cyfanswm gwerth presennol net prydlesi fesul bin (Ffigwr 4.6b) wedi'i addasu i gymryd i ystyriaeth gynnydd mewn gweithgarwch trafodion a thwf prisiau.

Yn absenoldeb model macro-economaidd i Gymru, mae rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn addas i'w mewnbynnu i'r model prif gyfraddau dibreswyl.

Cyfrifir refeniw trethi trwy gymhwyso'r cyfraddau treth a nodir yn Nhabl 4.1b i'r rhagolygon o ddosraniadau trafodion a gwerth. Mae ffwythiannau'r model yn gallu ymgorffori effaith newid ymddygiad trwy fesurau elastigedd trafodion ac elastigedd prisiau. Ni chaiff unrhyw effeithiau ataliol eu cymhwyso i'r rhagolygon hyn gan fod y refeniw'n gymharol isel ac oherwydd bod yr amcangyfrif ataliol ar gyfer prif gyfraddau dibreswyl yn fwy o farn ar hyn o bryd.

Dadansoddir sensitifrwydd y prif gyfraddau dibreswyl a'r modelau prydles rhent gyda'i gilydd gan eu bod yn defnyddio'r un penderfynyddion ac oherwydd bod maint cymharol y refeniw rhent prydlesol yn fach. Dadansoddir y sensitifrwydd trwy amrywio'r mewnbynnau economaidd (Tabl 4.10). Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd hyn yn rhoi syniad o sut y bydd y refeniw'n amrywio os bydd y

senario economaidd yn newid neu os bydd yr ymddygiad yn wahanol i'r hyn a ddisgwyliid. Dangosir canlyniadau'r dadansoddiadau sensitifrwydd hyn yn Nhabl 4.14.

Tabl 4.14a – 2.5 pwynt canran o gynnydd yn rhagolygon twf trafodion a phrisiau dibreswyl y DU

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf trafodion	4.0%	3.7%	3.8%	3.9%	4.0%
Twf prisiau	1.8%	4.1%	4.2%	4.2%	4.3%
Rhagolygon refeniw	105	120	131	143	156
<i>Rhagolwg gwreiddiol</i>	85	91	94	96	100

Tabl 4.14b – 2.5 pwynt canran o ostyngiad yn rhagolygon twf trafodion a phrisiau dibreswyl y DU

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf trafodion	-1.0%	-1.3%	-1.2%	-1.1%	-1.0%
Twf prisiau	-3.2%	-0.9%	-0.8%	-0.8%	-0.7%
Rhagolygon refeniw	95	97	95	93	92
<i>Rhagolwg gwreiddiol</i>	85	91	94	96	100

Gwnaed dadansoddiad sensitifrwydd hefyd ar gyfer newidiadau yn yr effeithiau ymddygiadol.

Ychydig iawn o effaith a gafodd newidiadau yn yr effeithiau ymddygiadol ar y rhagolwg refeniw.

Ôl-brofi

Mae staff o Ysgol Busnes Bangor cynt wedi cynnal ôl-brofion annibynnol ar fodelau Treth Trafodiadau Tir Llywodraeth Cymru i brofi eu haddasrwydd, eu sefydlogrwydd ac i roi sicrwydd ynghylch y rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig.

Un o brif yrwyr y rhagolwg ar gyfer y pedwar model yw'r dosraniadau blwyddyn sylfaen ar gyfer nifer y trafodion fesul bin a chyfanswm gwerthoedd eiddo fesul bin. Caiff y dosraniadau hyn eu haddasu i gymryd i ystyriaeth dwf yn y dyfodol mewn trafodion a phrisiau a chyfrifir refeniw trethi o'r dosraniadau hyn sydd wedi'u haddasu. Mae'n bwysig felly fod y dosraniadau blwyddyn sylfaen yn sefydlog ac yn adlewyrchu'r farchnad eiddo ar y pryd.

Profwyd sefydlogrwydd ac addasrwydd dosbarthiadau 2016/17 ar gyfer prif eiddo preswyl, eiddo preswyl ychwanegol, prif gyfraddau dibreswyl, rhent lles ddaliad dibreswyl ar gyfer y Gyllideb Derfynol 2018/19. O gofio'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, defnyddir yr un dosbarthiadau â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y Gyllideb Derfynol 2018/19 fel man cychwyn ar gyfer y Gyllideb Ddrafft 2019/20.

O'r herwydd, nid oes unrhyw newid sylweddol yn y dosbarthiadau ac mae'r modelau yn briodol ar gyfer rhagweld refeniw Treth Trafodiadau Tir.

Barn Ysgol Busnes Bangor ar y rhagolwg

Gwnaed cryn gynnydd ar ddatblygu modelau rhagweld y Dreth Trafodiadau Tir yn dilyn Adroddiad Terfynol yr Hydref, a oedd yn cynnwys argymhelliad gan Ysgol Busnes Bangor, a ddylai helpu i wella'r rhagolwg refeniw.

Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan Dîm Trysorlys Llywodraeth Cymru, mae Ysgol Busnes Bangor o'r farn bod y fethodoleg a ddisgrifir yn Adran 4 yn ddull priodol o ragweld refeniw Treth Trafodiadau Tir. Mae'r penderfyniad hwn yn seiliedig ar y drafodaeth gydag academyddion ac ymarferwyr ynghylch tybiaethau damcaniaethol y modelau (gan gynnwys dewis ffactorau), dadansoddiad dadansoddol o'r modelau, a'r amrywiad disgwyliedig yn y rhagolwg refeniw ar gyfer senarios gwahanol.

Mae'r holl fodelau a ddefnyddiwyd gan Trysorlys Cymru i gynhyrchu'r rhagolwg hwn wedi cael eu hatgynhyrchu'n annibynnol gan Ysgol Busnes Bangor fel rhan o'r broses ddilysu. Gwelir y rhagolwg terfynol o'r Dreth Trafodiadau Tir yn Nhabl 4.3.

Argymhelliad N4

Trysorlys Cymru i sefydlu proses fonitro i asesu'r perfformiad ac addasrwydd parhaus y model ar gyfer rhagweld refeniw. Mae hyn yn cynnwys dull o brofi ôl-brofi'r modelau sy'n seiliedig ar wybodaeth o'r WRA pan fydd digon o ddata ar gael.

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys data ystadegol gan CthEM sef Hawlfraint y Goron. Efallai na fydd y setiau data ymchwil a ddefnyddiwyd yn atgynhyrchu symiau cyfanredol CthEM yn union. Nid yw'r ffaith bod data ystadegol CthEM yn cael ei ddefnyddio yn y gwaith hwn yn awgrymu bod CthEM yn cymeradwyo sut y caiff yr wybodaeth ei dehongli neu ei dadansoddi.

ADRAN 5 - ARDRETHI ANNOMESTIG

Rhagarweiniad

Ym mis Ebrill 2015, gwelwyd cam pwysig ar lwybr datganoli cyllidol, pan ddatganolwyd cyfrifoldeb ariannol dros ardrethi annomestig i Weinidogion Cymru. Isadran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol a thîm Trysorlys Cymru sy'n gyfrifol am ragolygon refeniw Ardrethi Annomestig. Mae'r adran hon yn rhoi rhywfaint o gefndir ynglŷn â sut y caiff Ardrethi Annomestig eu gweithredu, sut y cynhyrchir rhagolygon refeniw ar eu cyfer, ac asesiad Prifysgol Bangor o'r dull gweithredu hwnnw.

Ffordd o drethu busnesau ac eiddo annomestig eraill yw Ardrethi Annomestig, gyda'r holl refeniw treth a godir yn cael ei gyfuno ac yna'i ddosbarthu i awdurdodau lleol (prif gynghorau a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd) yn defnyddio fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion. Fel gyda phob refeniw treth, gall fod yn anodd rhagfynegi penderfyniadau polisi, yn enwedig yn y tymor hwy. Yn achos Ardrethi Annomestig, rhoddwyd llawer o sylw i hyn yn ddiweddar, gydag enghreifftiau megis Adolygiad Barclay o Ardrethi Annomestig yn yr Alban¹⁹ ac Adolygiad Grimsey o'r "Stryd Fawr" a amlygodd Ardrethi Annomestig fel maes ar gyfer diwygio posib²⁰; a bu Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad rhwng Ebrill 2018 a Mehefin 2018 ar ffyrdd o fynd i'r afael ag achosion o osgoi talu ardrethi annomestig yng Nghymru²¹.

Mae'r dreth yn seiliedig ar werth ardrethol eiddo annomestig yng Nghymru. Mae'r gwerth ardrethol yn cael ei luosi gan y lluosydd i gyfrifo'r ardrethi ar gyfer yr eiddo. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yng Nghymru a Lloegr (VOA) yn asesu gwerth ardrethol eiddo (sydd ar gael i'r cyhoedd) ac yn gweinyddu unrhyw apeliadau yn eu cylch ar y cyd â Thribiwnlys Prisio Cymru. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r lluosydd bob blwyddyn. O 2018/19, caiff ei osod yn ôl y mynegai prisiau defnyddwyr, ar gyfer mis Medi'r flwyddyn ariannol flaenorol (yn y blynnyddoedd cyn 2018/19 câi ei osod yn ôl y Mynegai Prisiau Adwerthu).

Mae eiddo annomestig yng Nghymru fel arfer yn cael eu hailbrisio bob 5 mlynedd. Daeth yr ailbrisiad diweddaraf i rym ar 1 Ebrill 2017, yn seiliedig ar werthoedd rhent ar 1 Ebrill 2015. Mae'r ailbrisio nesaf yn cael ei ddwyn ymlaen i 2021. Nid yw cynnydd na chwymp mewn gwerth ardrethol adeg ailbrisiad yn arwain at gynnydd na chwymp yn refeniw cyffredinol Ardrethi Annomestig: rhaid addasu'r lluosydd i sicrhau bod yr enillion cyffredinol yn aros yr un peth. Felly, gan fod yn rhaid i

¹⁹ www.gov.scot/Resource/0052/00523643.pdf

²⁰ <http://www.vanishinghighstreet.com/wp-content/uploads/2018/07/GrimseyReview2.pdf>

²¹ beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-04/180403-tackling-non-domestic-rates.pdf

ailbrisiadau fod yn refeniw-niwtral yn gyffredinol, yn achos eiddo unigol, mae'n bosib na fydd cwmp yn ei werth ardrethol yn golygu cwmp yn ardrethi annomestig yr eiddo hwnnw. Mewn blynyddoedd pan nad oes ailbrisiu'n digwydd, mae'r lluosydd yn cael ei osod dros dro ym mis Medi bob blwyddyn, ac o 2018 gwneir hynny yng nghyswllt y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Felly, yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, mae biliau treth yn codi neu'n gostwng yn unol â'r mesur chwyddiant hwn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall refeniw Ardrethi Annomestig godi neu ostwng yn gyflymach oherwydd newid yn y sylfaen dreth: bod gwerth yr eiddo a ychwanegir i'r sylfaen dreth yn fwy na gwerth yr eiddo a dynnir o'r sylfaen dreth (mae newidiadau o'r fath yn y sylfaen dreth yn gysylltiedig â'r economi a chyfeirir atynt fel hydwythedd).

Mae angen ystyried nifer o ryddhadau ac addasiadau eraill cyn y gellir deillio'r swm terfynol sydd ar gael i'w ddosbarthu i awdurdodau lleol. Mae nifer o ryddhadau (gorfodol a dewisol) yn gysylltiedig ag Ardrethi Annomestig. Mae'r rhain yn cynnwys Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, rhyddhad elusennol, rhyddhad ar eiddo gwag a rhyddhad caledi. Nid yw proffil y rhyddhadau hyn yn gyson.

Gall canlyniad apeliadau gael effaith sylweddol ar swm terfynol y refeniw o Ardrethi Annomestig sydd ar gael i'w ddosbarthu i awdurdodau lleol. Yng Nghymru, derbyniwyd cyfran gymharol uchel o heriau o'i gymharu â nifer yr hereditamentau ar y rhestr, sef tua 40% ar gyfer rhestr 2010 dros oes y rhestr. Fodd bynnag, o'r heriau hyn, dim ond tua thraean sydd wedi arwain at newidiadau yn y rhestr, sy'n golygu nad yw tua dwy ran o dair o'r heriau yn arwain at unrhyw newid yng ngwerth ardrethol hereditament. Fodd bynnag, mae posibilrwydd y gallai un apêl lwyddiannus gan drethdalwr gael effaith sylweddol, er enghraifft mae apêl lwyddiannus gan BT wedi arwain at ostyngiad mewn enillion yn y blynyddoedd hyd at 2019/20 o £8m (0.8% o'r swm dosbarthadwy yn rhagolwg 2019/20). Caiff yr apeliadau eu prosesu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru gellir ôl-ddyddio apeliadau llwyddiannus dros nifer o flynyddoedd (tan ddechrau'r rhestr berthnasol). Mae diffyg gwybodaeth amserol am apeliadau sy'n cael eu prosesu, felly mae gwneud rhagolwg mewn perthynas ag apeliadau'n anodd. Mae hon yn her sydd hefyd wedi cael ei hamlygu gan Lywodraeth yr Alban²².

Rhagolwg refeniw Ardrethi Annomestig

²² Gweler cyhoeddiad Llywodraeth yr Alban <https://beta.gov.scot/publications/foi-17-02453/>

Nodir rhagolygon y refeniw o Ardrethi Annomestig sydd ar gael i'w dosbarthu isod yn Nhabl 5.1.

Tabl: 5.1 Rhagolwg refeniw Ardrethi Annomestig- swm dosbarthadwy 2019/20 hyd 2022/23 (£ miliwn)

Cyfnod	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Swm dosbarthadwy	1,050	1,061	1,090	1,111	1,134


Daw'r ffigwr ar gyfer 2019/20 o'r weithdrefn ragweld a drafodir yn y bennod hon, a deillir ffigyrau'r rhagolwg ar gyfer blynyddoedd diweddarach trwy gynyddu'r derbyniadau a ragwelir, llai unrhyw addasiadau blwyddyn flaenorol, yn unol â rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Mae Ysgol Busnes Bangor eisoes wedi cyhoeddi;

- a) Adroddiad Terfynol yr Hydref (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017) sy'n nodi'r methodolegau a'r tybiaethau sy'n ymwneud â rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi datganoledig. Dyma oedd yn sail i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018/19 a
- b) Datganiad Diweddar i Adroddiad Terfynol yr Hydref (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017), sy'n ystyried y rhagolygon macro-economaidd newydd, y newid yn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach a'r rhagolygon refeniw a ddiweddarwyd gan Dîm Trysorlys Llywodraeth Cymru yn dilyn Adroddiad Terfynol yr Hydref.

Mae Ffigwr 5.1 yn cymharu'r rhagolwg Ardrethi Annomestig ar gyfer 2019/20 yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, gyda'r rhagolwg y creffir arno yn yr adroddiad hwn. Mae'r newid bach yn swm dosbarthadwy rhagolwg 2019/20 yn deillio o'r ffaith bod gwybodaeth newydd ar gael am alldro refeniw yn 2017-18 ac am ragamcaniadau awdurdodau lleol ar gyfer 2018-19, a gwybodaeth economaidd newydd (ffigyrau chwarterol diwygiedig y Mynegai Prisiau Defnyddwyr).

Ffigwr 5.1 - Esblygiad cyfanswm y refeniw treth a ragwelir gan fodel trethi annomestig



Diweddariad ar argymhelliad blaenorol

Argymhelliad 9

Dylid ymgymryd â gwaith i ymchwilio i debygolrwydd apeliadau llwyddiannus ac ymgorffori elfen am hynny yng nghyfrifiadau'r rhagolwg.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i weld pa wybodaeth am apeliadau y byddai modd eu gwneud ar gael. Mae trafodaethau hefyd wedi cael eu cynnal gyda Llywodraeth yr Alban ynglŷn â'r wybodaeth am apeliadau sydd ar gael iddynt er mwyn llywio eu proses rhagweld.

Dull rhagweld

Nid yw rhagolygon refeniw Ardrethi Annomestig yn deillio o fodel economaidd Ardrethi Annomestig penodol, ond o ddata cyfanredol o'r ymarfer gweinyddol a wneir i bennu'r swm dosbarthadwy ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'r dull hwn yn debyg i'r dull a fabwysiadwyd gan Gomisiwn Cyllidol yr Alban, gan dynnu ar ddata sydd ar gael gan Aseswyr yr Alban a ffurflenni Incwm Ardrethi Annomestig Awdurdodau Lleol²³. Bob blwyddyn, rhaid i Lywodraeth Cymru bennu faint o Wariant a Reolir yn Flynyddol a fydd ar gael i'w ddosbarthu i awdurdodau lleol yn y flwyddyn ganlynol. Fel rhan o hyn mae dwy ffordd o gasglu Ardrethi Annomestig; mae awdurdodau lleol (rhestr leol) yn casglu tua 90% o'r enillion net, gyda'r gweddill yn cael ei gasglu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru (rhestr ganolog) oddi wrth sefydliadau mawr, fel arfer cyfleustodau, sy'n rhychwantu nifer o awdurdodau lleol. Caiff yr enillion ei gyfuno a'i ddosbarthu gan Lywodraeth Cymru.

Rhestr Leol

Cyn gwybod faint fydd yn cael ei gasglu, gofynnir i awdurdodau lleol, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, adrodd faint o refeniw Ardrethi Annomestig y maent yn disgwyl ei gasglu i gyfrannu at y pwll. Ym mis Chwefror bydd pob awdurdod lleol yn rhoi amcangyfrif gorau, ynghyd ag amcangyfrifon eraill, er enghraifft, ar gyfer rhyddhadau, a chyfrifiadau o gostau casgliadau, yn unol

²³ www.fiscalcommission.scot/publications/occasional-papers/current-approach-to-forecasting-september-2017/

â'r Canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Yn y cam hwn ni ddarperir gwybodaeth fanwl am effaith ddisgwyliedig apeliadau, gan na fyddai gan awdurdodau lleol wybodaeth am hyn gan mai Asiantaeth y Swyddfa Brisió sy'n gweinyddu hyn.

Er bod yr awdurdodau lleol yn rhoi amcangyfrifon gorau ym mis Chwefror, rhaid i Lywodraeth Cymru gadarnhau erbyn y mis Rhagfyr blaenorol faint o arian y bydd yn ei ddosbarthu ar gyfer y flwyddyn ganlynol. O'r herwydd, mae gwahaniaeth rhwng pryd y bydd gwybodaeth ar gael a phryd y bydd angen dosbarthu refeniw trethi i awdurdodau lleol. Mae rhagolwg refeniw Ardrethi Annomestig yn deillio o'r broses hon, yn hytrach na chael eu deillio o ragolwg economaidd ar wahân a gynhelir gyda'r unig ddiben o bennu refeniw Ardrethi Annomestig. Nid yw'r rhai sy'n paratoi'r rhagolwg o Wariant a Reolir yn Flynyddol yn meddu ar ddata manwl ar lefel trethdalwyr ac felly mae'r rhagolwg o refeniw Ardrethi Annomestig yn cael ei ddeillio o'r symiau cyfanredol a adroddir. Mae'r broses hon wedi gweithredu mewn ffordd debyg ers blynyddoedd lawer, gan gynnwys y blynyddoedd cyn datganoli cyfrifoldeb ariannol dros Ardrethi Annomestig yn 2015 a cheir rhai anawsterau oherwydd amseriad derbyn gwybodaeth. Mae'r amserlen yn y flwyddyn ar gyfer pryd y bydd gwybodaeth ar gael fel a ganlyn:

Chwefror – awdurdodau lleol yn llenwi NDR1, yn unol â'r Canllawiau, ac yn ei dychwelyd i Lywodraeth Cymru. Rhagolwg yw'r NDR1 ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn seiliedig ar yr wybodaeth ar y rhestrau ardrethu lleol a defnyddir yr wybodaeth hon i gyfrifo'r swm a ddosberthir i awdurdodau lleol.

Ebrill / Mai - awdurdodau lleol yn cyflwyno NDR3 sy'n adrodd swm gwirioneddol eu cyfraniad treth Ardrethi Annomestig i'r pwll am y flwyddyn flaenorol, heb ei archwilio, ac mae'n cynnwys effaith apeliadau.

Tachwedd - awdurdodau lleol yn llenwi NDR3 wedi'i archwilio, sy'n dangos yr incwm gwirioneddol a gasglwyd.

Felly mae 14 mis yn mynd heibio rhwng cyflwyno NDR1 (rhagolwg) ac NDR3 (gwirioneddol) i Lywodraeth Cymru. (Defnyddir ffurflenni NDR2, a lenwir gan awdurdodau lleol, i roi gwybod am unrhyw wyriad sylweddol a ddisgwyliir oddi wrth eu rhagolygon cychwynnol). O'r herwydd, mae cywiriad bob amser yn cael ei wneud i gydbwysu'r swm o arian mwy/llai na'r disgwyl a ddosberthir i awdurdodau lleol. Y gwahaniaeth rhwng alldro NDR3 a rhagolwg NDR1 sy'n ffurfio sail taliad cydbwysu neu addasiad blwyddyn flaenorol ar gyfer pob awdurdod lleol.

Mae'r swm dosbarthadwy ar gyfer 2019-20 yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddaeth ar gael yn 2018 ac ar nifer o dybiaethau ynghylch ffactorau a allai effeithio ar y swm i'w gasglu. Caiff amcangyfrifon o'r rhyddhadau canlynol eu cynnwys yn NDR1: rhyddhadau ar gyfer elusennau, clybiau chwaraeon amatur cymunedol, cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, eiddo wedi ei feddiannu'n rhannol ac eiddo gwag. Os yw elusen gofrestredig neu glwb chwaraeon amatur cymunedol yn meddiannu eiddo, rhoddir rhyddhad rhwng 80% a 100%. Mae rhyddhad ar gyfer eiddo sydd wedi ei feddiannu'n rhannol ar gael pan fo rhan o eiddo'n wag dros dro oherwydd yr angen i adael eiddo neu feddiannu eiddo dros gyfnod o amser. Mae eiddo busnes gwag wedi'u heithrio rhag talu Ardrethi Annomestig am o leiaf 3 mis ar ôl i'r eiddo ddod yn wag. Mae cynllun newydd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn ei le ers mis Ebrill 2018. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu cynnydd yn y rhyddhad sydd ar gael i fusnesau yn y sector gofal plant; a chyfyngiad (dau eiddo) ar y rhyddhad sydd ar gael i drethdalwyr sydd ag eiddo lluosog yn unrhyw awdurdod lleol unigol. 2019/20 yw'r flwyddyn olaf y bydd rhyddhad trosiannol ar gael i'r rheini y gwnaeth ailbrisiad 2017 effeithio ar eu cymhwystra i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach.

Rhestr Ganolog

Dyma restr set o fusnesau, gyda seilwaith sy'n rhychwantu ffiniau awdurdodau lleol. Mae ffigwr yr enillion dosbarthadwy net ar gyfer y rhestr ganolog yn cael ei uwchraddio gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr bob blwyddyn, oni bai fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn darparu gwybodaeth benodol, fel sy'n digwydd mewn blwyddyn ailbrisio. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf nid yw rhagolygon blaenorol y rhestr ganolog wedi arwain at wallau sylweddol yn y rhagolygon. Mae'r apêl ddiweddar gan BT wedi tynnu sylw at effaith bosibl apeliadau mawr.

Cydrannau'r offeryn rhagweld

Yr enillion gros yw cyfanswm y gwerth ardrethol, wedi'i addasu ar gyfer hydwythedd, llai rhyddhadau, colledion casglu, costau casglu a "gostyngiadau yn y flwyddyn", sef apeliadau yn bennaf (ac unrhyw wybodaeth ddiwygiedig a ddarperir yn dilyn hynny). Mae posibilrwydd y bydd ansicrwydd ynghlwm wrth bob un o'r addasiadau hyn, ac felly y bydd gwallau yn y rhagolygon.

Yn y broses ragweld hon, defnyddir amcangyfrif o hydwythedd i gymryd newidiadau yn y sylfaen dreth i ystyriaeth ac fe'i cymhwysir i'r rhestr leol. (Ystyrir nad yw'r eiddo ar y rhestr ganolog yn debygol o ehangu). Deillir hyn o'r gwerth ardrethol ar ddechrau'r flwyddyn fel canran o'r gwerth ardrethol cyfartalog. (Darperir gwerth ardrethol blwyddyn gyntaf a blwyddyn olaf gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.) Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi aros yn ddigyfnewid yn yr ymarfer rhagweld hwn, gyda ffactorau hydwythedd o 1.0 yn cael eu defnyddio. O ran sylfaen dreth y rhestr

ganolog, ystyriwyd yn flaenorol y posibilrwydd o gynyddu hyn yn unol â mesur twf economaidd. Fodd bynnag, nid yw busnesau'r rhestr ganolog yn rhai a fyddai fel arfer yn dilyn twf economaidd; at hynny mae gwaith a wnaed gan Lywodraeth yr Alban heb ddod o hyd i unrhyw gysylltiadau clir rhwng hydwythedd a newidynnau economaidd megis Cynnyrch Mewnwladol Crynswth²⁴. Felly, ystyrir bod defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn briodol i ragweld refeniw Ardrethi Annomestig a defnyddir rhagolwg Mynegai Prisiau Defnyddwyr Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i wneud hyn. Mae awdurdodau lleol yn rhagweld eu hamcangyfrif gorau o'r rhyddhadau y disgwylir eu rhoi yn ystod y flwyddyn, ac ystyrir mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i ragweld hyn. Nid yw eu ffurflenni cychwynnol yn cynnwys apeliadau, gan mai ychydig wybodaeth sydd gan awdurdodau lleol am hyn: mae'r rhain yn anodd eu rhagweld a chânt eu prosesu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, felly nid yw'r wybodaeth ar gael hyd nes i apeliadau gael eu datrys. At hyn, mae rhagfynegi canlyniad apeliadau'n anodd ac yn fasnachol sensitif.

O ran colledion casglu, mae rhagolwg dechreuol NDR1 gan awdurdodau lleol yn darparu ar gyfer lwfans o 1%, a chaiff y ffigwr ar gyfer colledion casglu ei gynnwys ar NDR3. Yn y blynyddoedd diweddar, mae'r ddarpariaeth ddechreuol o 1% wedi bod ychydig yn uwch na'r colledion alldro.

Ceir y ffigwr ar gyfer refeniw Ardrethi Annomestig a ragwelir drwy ddefnyddio'r dull cyfrifyddu hwn ar ôl didynnu costau tybiannol casglu ac addasiadau blwyddyn flaenorol. Cyfrifir costau casglu, heb gyfeirio'n benodol at gostau uniongyrchol casglu refeniw Ardrethi Annomestig, ond yn unol â lwfans penodedig (£39.50 yr hereditament a'r gwerth ardrethol cyfanredol ar gyfer rhestr ardrethu'r awdurdod wedi ei luosi â 0.00087). Mae pob awdurdod lleol yn dal y swm hwn yn ôl, gan gyfrannu refeniw Ardrethi Annomestig, heb gynnwys y costau casglu tybiannol hyn, i'r pwll.

Dadansoddiad o'r rhagolwg a dadansoddiad sensitifrwydd

Mae adolygiad o'r rhagolygon o refeniw Ardrethi Annomestig o'i gymharu â'r refeniw gwirioneddol yn dangos nad yw'r dull hwn wedi esgor ar wallau arwyddocaol yn y rhagolwg refeniw Ardrethi Annomestig yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Newid ym mhroffil refeniw o awdurdodau lleol

Fel yn y flwyddyn flaenorol, cafodd y rhestr leol, sy'n dangos y ffurflenni gan y 22 awdurdod lleol, ei hadolygu a'i dadansoddi. Rhan o'r gwaith hwnnw oedd ystyried effaith bosibl gostyngiad yn refeniw Ardrethi Annomestig o ranbarth daearyddol neu awdurdod lleol penodol ar gyfanswm refeniw Ardrethi Annomestig. O'r refeniw Ardrethi Annomestig ar y rhestr leol, yr achos o hyd yw mai'r

²⁴ Adroddiad Gwerthuso Rhagolygon, Comisiwn Cyllidol yr Alban (2017) Medi 2017 t 31

mwyaf arwyddocaol yw Caerdydd. Yn 2016/17, sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol, byddai cynnydd neu ostyngiad o 10% yn y refeniw Ardrethi Annomestig o Gaerdydd (£19 miliwn) wedi arwain at newid o 2% yng nghyfanswm y refeniw Ardrethi Annomestig gan awdurdodau lleol.

Newid yn nifer yr eiddo â gwerth ardrethol uchel

Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd dim ond nifer fach iawn o eiddo annomestig sydd â gwerth ardrethol uchel (ychydig o dan 200 o hereditamentau â gwerth ardrethol dros £1m). Pe bai cwmp ym nifer yr eiddo gwerth ardrethol uchel hyn (er enghraifft, oherwydd cau neu adleoli busnes), neu yn rhwymedigaethau'r eiddo hyn (er enghraifft wrth apelio) bydd colli refeniw oddi wrthynt yn cael effaith yn ei dro ar gyfanswm refeniw Ardrethi Annomestig.

Barn Ysgol Busnes Bangor ar y rhagolwg

Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan Dîm Trysorlys Llywodraeth Cymru, mae Ysgol Busnes Bangor o'r farn bod y fethodoleg a ddisgrifir yn y bennod hon yn ddull priodol o ragweld refeniw Ardrethi Annomestig Cymru.

Nid yw rhagolygon refeniw Ardrethi Annomestig yn deillio o fodel economaidd Ardrethi Annomestig penodol, y gellid ei atgynhyrchu, ond o ddata cyfanredol o'r ymarfer gweinyddol a gynhaliwyd i bennu'r swm dosbarthadwy i awdurdodau lleol. Trafodwyd y dull hwn gydag academyddion ac ymarferwyr. Adolygwyd y data hwn, gan gynnwys sut y caiff ei gyfuno, a'r camau yn y broses ragweld, gan gynnwys y Canllawiau. Proses sefydledig yw hon sydd wedi cael ei gweithredu ers nifer o flynyddoedd gan staff gwybodus a phrofiadol, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwahaniaethau rhwng y ffigyrau gwirioneddol a'r rhagolygon wedi bod yn fach, gan awgrymu bod hon yn weithdrefn sydd wedi ei deall yn dda ac a gynhelir gan bobl sydd â phrofiad o ffurfio barn yn y maes hwn. Gwelir y rhagolwg terfynol ar gyfer Ardrethi Annomestig yn Nhabl 5.1.

Argymhelliad N5

Parhau i weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisió i drafod dulliau o wella argaeledd gwybodaeth amserol am apeliadau.

ADRAN 7 - CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU

Rhagarweiniad

Caiff Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) eu cyflwyno fel treth wedi ei datganoli'n rhannol yng Nghymru o Ebrill 2019. Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu amrywio'r cyfraddau treth incwm sy'n daladwy gan drethdalwyr Cymru ar incwm nad yw'n gynilion nad yw'n ddifidend, ond bydd Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am gyfran fawr o dreth incwm.

O 1 Ebrill 2019, bydd Llywodraeth y DU yn gostwng 10c oddi ar bob un o'r tair cyfradd treth incwm (cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol) a delir gan drethdalwyr Cymru. Yna bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar y tair cyfradd yng Nghymru, a fydd yn cael eu hychwanegu at gyfraddau is y DU. Bydd cyfradd gyffredinol y dreth incwm a delir gan drethdalwyr Cymru yn cael ei phennu gan y cyfuniad o gyfraddau gostyngedig y DU ynghyd â chyfraddau newydd Cymru. Er enghraifft, os yw Llywodraeth Cymru yn penderfynu bod pob un o gyfraddau Cymru yn 10c, bydd hyn yn golygu y bydd y dreth incwm gyffredinol a delir gan drethdalwyr Cymru yn parhau i fod yr un fath â'r hyn a delir gan drethdalwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Yn 2015/16, amcangyfrifir bod y dreth incwm nad yw'n gynilion nad yw'n ddifidend yng Nghymru gyfanswm o £4,365 miliwn o dan system bresennol y DU. Mae'r cyfanswm hwn yn crynhoi oddeutu £3,220 miliwn o'r taliad cyfradd sylfaenol, £995 miliwn o'r gyfradd uwch, a £150 miliwn o'r gyfradd ychwanegol. Amcangyfrifir y bydd Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn cyfrif am £1,890 miliwn (neu 43 y cant o gyfanswm refeniw treth incwm yng Nghymru yn 2015/16).

Mae'r Gyllideb Ddrafft 2019/20 yn argymhell bod cyfraddau CTIC yn cael eu gosod fel bod trethdalwyr Cymru yn parhau i dalu'r un gyfradd â'r rhai a delir gan drethdalwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae cyfraddau a throthwyon Cyfraddau Treth Incwm Cymru wedi eu nodi isod yn Nhabl 7.1. Mae'r lwfansau personol a'r trothwyon yn Nhabl 7.1 yn ymwneud â chyfnod 2018/19; bydd y lefelau hyn ar gyfer y cyfnod 2019/20 yn cael eu pennu gan Lywodraeth y DU tua diwedd 2018.

Tabl 7.1a: Cyfraddau treth incwm, 2019/20

Cyfraddau treth	DU	Cymru	Cyfanswm	Cymru/Cyfanswm
Sylfaenol	10%	10%	20%	0.50
Uwch	30%	10%	40%	0.25
Ychwanegol	35%	10%	45%	0.22

Tabl 7.1b: Trothwy a gostyngiadau seiliedig ar enillion (*tapers*), 2018/19

Trothwy a gostyngiadau seiliedig ar enillion	Gwerth
Lwfans personol	£11,850
Terfyn cyfradd sylfaenol	£34,500
Trothwy cyfradd ychwanegol	£150,000
Trothwy gostyngiad seiliedig ar enillion lwfans personol	£100,000
Cyfradd gostyngiad seiliedig ar enillion lwfans personol	50%

Rhagolygon refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Mae amcangyfrifon/rhagamcanion y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer cyfanswm y refeniw o Gyfraddau Treth Incwm Cymru rhwng 2015/16 a 2022/23 wedi eu nodi yn Nhabl 7.2 (sydd wedi eu haddasu ar gyfer taliadau Rhodd Cymorth).

Tabl 7.2: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (Mawrth 2018) - cyfanswm refeniw treth incwm Cymru 2015/16 i 2022/23 (£ miliynau)

Cyfnod	Refeniw
2015/16	1,890
2016/17	1,952
2017/18	2,006
2018/19	2,053
2019/20	2,086
2020/21	2,150
2021/22	2,223
2022/23	2,305

Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn codi o £2,053 miliwn yn 2018/19 i £2,305 miliwn yn 2022/23, cynnydd o 12 y cant.

Rhagolwg Llywodraeth Cymru o refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru

Mae rhagolygon refeniw Llywodraeth Cymru Cyfraddau Treth Incwm Cymru o 2019/20 i 2022/23 gan Lywodraeth Cymru wedi'u nodi yn Nhabl 7.3. Mae rhagolygon 2019/20 wedi eu nodi i fod yr un fath â rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o ystyried bod trefniadau trosiannol yn berthnasol i'r addasiad grant bloc ar gyfer treth incwm yn y cyfnod hwnnw. Gan hynny, bydd effaith gyllidebol niwtral wrth gyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn 2019/20 (gyda rhagolygon y flwyddyn sydd i ddod yn dechrau o fan cychwyn y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn 2019/20).

Tabl 7.3: Refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru 2019/20 i 2022/23 (£ miliynau)


Cyfnod	Refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru	Y gyfradd sylfaenol	Y gyfradd uwch	Y gyfradd ychwanegol
2019/20	2,099	1,797	260	43
2020/21	2,164	1,851	268	45
2021/22	2,237	1,911	277	49
2022/23	2,320	1,977	290	53

Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn codi o £2,099 miliwn yn 2019/20 i £2,320 miliwn yn 2022/23, cynnydd o 11 y cant. Mae'r gyfradd sylfaenol yn cyfrif am y rhan fwyaf o gyfanswm refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru; 85 y cant yn ystod y cyfnod cyfan. Er y rhagwelir y bydd refeniw o'r gyfradd sylfaenol yn cynyddu 10 y cant rhwng 2019/20 a 2022/23, rhagamcanir y bydd refeniw o'r gyfradd uwch a'r gyfradd ychwanegol yn cynyddu 12 y cant a 23 y cant yn y drefn honno.


Methodoleg

Mae model Cyfraddau Treth Incwm Cymru Trysorlys Cymru yn defnyddio methodoleg o'r gwaelod i fyny i ragamcanu'r refeniw a gynhyrchir o drethi incwm yng Nghymru. Defnyddir methodoleg o'r gwaelod i fyny i ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael a sicrhau bod newidiadau mewn demograffeg yn cael eu cofnodi mor gywir â phosib ac yn caniatáu gwahanu'r refeniw treth i'r cydrannau gwahanol.


Defnyddir gwybodaeth o Arolwg o Incwm Personol CThEM i gynhyrchu dosbarthiad o drethdalwyr fesul bin incwm yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2015/16 (hynny yw, y data diweddaraf sydd ar gael). Mae'r data'n yn adlewyrchu amcangyfrif i 1,314 mil o drethdalwyr incwm nad yw'n deillio o gynilion ac incwm nad yw'n deillio o ddifidend yng Nghymru yn ystod 2015/16 gydag incwm cyfartalog o £25,180. Mae Ffigur 7.1 yn dangos y wybodaeth sydd ar gael yn 2015/16.



Ffigur 7.1a - Nifer y trethdalwyr yng Nghymru, 2015/16



Ffigur 7.1b - Cyfanswm referniw treth/Cyfraddau Treth Incwm Cymru, 2015/16



Ffigwr 7.1c - Cyfanswm y cydrannau refeniw treth, 2015/16

Mae'r binau incwm yn cynyddu o £1,000 hyd at £150,000 gyda bin terfynol o> £150,000 i gofnodi'r holl drethdalwyr sy'n weddiill. Mae maint y bin hwn yn rhoi dosbarthiad clir o drethdalwyr yn 2015/16, fel y gellir rhagamcanu refeniw Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn y dyfodol.

Mae'r dosbarthiad yn Ffigwr 7.1a wedi'i addasu i gymryd i ystyriaeth rhagolygon twf trethdalwyr yng Nghymru. Mae'r twf hwn ymhlyg yn rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am daliadau a chyflogau wedi'u haddasu i gymryd i ystyriaeth y twf yn y boblogaeth yng Nghymru (16+). Gwelir y twf ymhlyg mewn trethdalwyr yng Nghymru yn Nhabl 7.4.

Tabl 7.4: Rhagolygon twf trethdalwyr yng Nghymru, 2019/20 i 2022/23

Cyfnod	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf cyflogaeth	0.07%	-0.03%	-0.05%	-0.11%

Mae'r rhagolygon twf cyflogaeth yn Nhabl 7.4 wedi eu rhagamcanu o ragolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am daliadau a chyflogau, wedi'u haddasu i gymryd i ystyriaeth y twf ym mhoblogaeth Cymru(16+) felly efallai ni fydd y rhagolwg yn cyd-fynd â'r twf cyflogaeth (nifer) yng Nghymru. Mae'r gwahaniaeth hwn yn briodol o ystyried bod y model yn ymwneud yn unig â'r twf mewn trethdalwyr/taliadau a chyflogau.

Mae'r biniau incwm yn Ffigur 7.1a hefyd wedi'u haddasu i gymryd i ystyriaeth y twf mewn incwm cyfartalog. Mae hyn yn seiliedig ar ragolygon enillion cyfartalog y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer y DU yn gyfan fel y nodir yn Nhabl 7.5.

Tabl 7.5: Twf enillion cyfartalog a ragwelir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn y DU, 2018/19 i 2022/23

Cyfnod	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf enillion cyfartalog	2.4%	2.6%	2.8%	3.0%

Cyfrifir cyfanswm y refeniw treth yng Nghymru trwy gymhwyso'r cyfraddau treth a nodir yn Nhabl 7.1 i'r dosbarthiad trethdalwyr a ragamcanir a'r biniau incwm cysylltiedig. Daw Cyfraddau Treth Incwm Cymru o gyfanswm rhagolwg refeniw treth Cymru yn seiliedig ar y cyfrannau yn Nhabl 7.1 (y golofn olaf). Mae cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol hefyd yn deillio o gyfanswm rhagolygon refeniw treth Cymru yn seiliedig ar y trothwyon priodol. Gwneir hyn drwy gynyddu'r cyfraddau yn Nhabl 7.1 gan ddefnyddio rhagolwg y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn Adran 2.

Mae ffwythiannau'r model yn gallu ymgorffori effaith newid ymddygiad trwy elastigedd. Mae'r rhain yn cofnodi newidiadau mewn enillion llafur (trwy newidiadau mewn incwm) a hefyd ymatebion mudo posibl i gyfraddau treth amrywiol yn y DU. Mae'r elastigedd yn cymryd i ystyriaeth gwahaniaethau rhwng cyfraddau treth ac yn cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol (cyflogwyr a gweithwyr) yn y cyfrifiadau. Fodd bynnag, nid oes gofyniad i wneud hyn yn y rhagolwg trethi hwn, gan nad oes unrhyw newidiadau yn y cyfraddau treth.

Er nad oes unrhyw elastigedd penodol i Gymru ar gael, mae CThEI ac eraill wedi cyhoeddi amcangyfrifon o effaith newidiadau yn y cyfraddau treth ar incwm i'r DU. Fodd bynnag, nid oes unrhyw amcangyfrifon wedi'u seilio ar ymchwil ar gael o ymatebion mudo o fewn y DU i amrywiadau treth incwm o ystyried mai dim ond yn ddiweddar y bu amrywiadau o'r fath yn bodoli.

Dadansoddir sensitifrwydd model Cyfraddau Treth Incwm Cymru trwy amrywio mewnbynnau economaidd y model (Tabl 7.4) a Thabl 7.6). Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd hyn yn rhoi syniad o sut y bydd y refeniw yn amrywio os bydd y senario economaidd yn newid. Gwelir canlyniadau'r dadansoddiadau sensitifrwydd hyn yn Nhabl 7.7.

Tabl 7.6a: Cynnydd o 1.5 pwynt canran mewn twf incwm cyfartalog a threthdalwyr

Cyfnod	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf mewn incwm cyfartalog	3.9%	4.1%	4.3%	4.5%
Twf mewn trethdalwyr	1.6%	1.5%	1.4%	1.4%
Rhagolygon refeniw	2,174	2,241	2,316	2,401
<i>Rhagolwg gwreiddiol</i>	<i>2,099</i>	<i>2,164</i>	<i>2,237</i>	<i>2,320</i>

Tabl 7.6b: Gostyngiad o 1.5 pwynt canran mewn twf incwm cyfartalog a threthdalwyr

Cyfnod	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Twf mewn incwm cyfartalog	0.9%	1.1%	1.3%	1.5%
Twf mewn trethdalwyr	1.0%	1.0%	1.0%	1.0%
Rhagolygon refeniw	2,000	2,062	2,132	2,211
<i>Rhagolwg gwreiddiol</i>	<i>2,099</i>	<i>2,164</i>	<i>2,237</i>	<i>2,320</i>

Barn Ysgol Busnes Bangor ar y rhagolwg

Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan Trysorlys Cymru, mae Ysgol Busnes Bangor o'r farn bod y fethodoleg a ddisgrifir yn Adran 7 yn ddull priodol o fodelu newidiadau polisi Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Mae'r penderfyniad hwn yn seiliedig ar y drafodaeth gydag academyddion ac ymarferwyr ynghylch rhagdybiaethau damcaniaethol y modelau (gan gynnwys dewis ffactorau), dadansoddiad dadansoddol o'r modelau, a'r amrywiad yn y refeniw a ragwelir ar gyfer senarios gwahanol.

Mae'r holl fodelau a ddefnyddiwyd gan Trysorlys Cymru i gynhyrchu'r rhagolwg hwn wedi cael eu hatgynhyrchu'n annibynnol gan Ysgol Busnes Bangor fel rhan o'r broses ddilysu. Gwelir y rhagolwg terfynol ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn Nhabl 7.3.

Argymhelliad N6

Trysorlys Cymru i ymgorffori data newydd ar Cyfraddau Treth Incwm Cymru wrth iddo ddod ar gael ac ystyried unrhyw wybodaeth newydd ar effeithiau ymddygiadol treth incwm.

ADRAN 7 – DIWEDDGLO

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r rhagdybiaethau a'r methodolegau sy'n sail i ragolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer y trethi datganoledig, a gwaith a chasgliad Ysgol Busnes Bangor ar eu haddasrwydd i'w cynnwys yn y broses gosod cyllideb yng Nghymru.

Rhoddodd Deddf Cymru 2014 bwerau newydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymwneud â threthi a benthycu: pwerau i gyflwyno trethi Cymru i gymryd lle treth tir ar ddyletswydd stamp y DU a threth tirlenwi y DU, datganoli rhannol treth incwm, pwerau i gyflwyno trethi datganoledig eraill ar achos fesul achos a phwerau benthycu. Mae cyfraddau annomestig wedi'u datganoli ym mis Ebrill 2015.

Roedd y gwaith a gwblhawyd yn yr adroddiad hwn yn cynnwys adolygiad o'r rhagamcaniadau a'r dull o benderfynu ar yr amcanestyniadau mewn perthynas â'r pedair treth hyn; y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, y Dreth Trafodiadau Tir, Ardrethi Annomestig, ac Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Defnyddir gwahanol fethodolegau i ragweld y refeniw a gesglir gan bob treth. Mae'r gwahaniaeth mewn methodolegau yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd ar gael a'r gweithgaredd economaidd sy'n ymwneud â'r dreth.

Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir gan Drysorlys Cymru, trafodaethau gydag academyddion ac ymarferwyr ar ragdybiaethau damcaniaethol y modelau (gan gynnwys dewis ffactorau) a dadansoddiad dadansoddol o'r modelau, mae Ysgol Busnes Bangor yn casglu bod rhagolygon yn seiliedig ar fethodolegau a rhagdybiaethau cadarn a phriodol.

Mae absenoldeb amrywiad mawr yn y rhagolygon refeniw ar gyfer gwahanol senarios economaidd a rhagdybiaethau model yn cefnogi addasrwydd y rhagolygon cynhwysiad yn y broses gosod cyllidebau. Yn ogystal, mae'r holl fodelau a ddefnyddiwyd gan Drysorlys Cymru i gynhyrchu'r rhagolygon hwn wedi cael eu hatgynhyrchu'n annibynnol gan Ysgol Fusnes Bangor fel rhan o broses ddilysu.

Mae Trysorlys Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â chynghor ac argymhellion Ysgol Fusnes Bangor ar ffyrdd i wella'r methodolegau a wnaed yn ystod y broses.

Gan fod data alldro pellach ar gael ar gyfer y trethi datganoledig yn 2018/19, bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddiweddarw i adlewyrchu perfformiad cymharol y refeniw alldro mewn perthynas â'r rhagolygon. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei ddiweddarw i adlewyrchu diwygiadau i ddisgwyliadau economaidd ac effaith y rhain ar gyfer y refeniw datganoledig yng Nghymru.

ATODIAD 1 - CRYNODEB O'R CYFATHREBU ALLWEDDOL

Dyddiad	Cyfarfod
21 Mawrth 2018	Cyfarfod rhwng Trysorlys Cymru ac Ysgol Busnes Bangor
2 Fai 2018	Cyfarfod rhwng Trysorlys Cymru ac Ysgol Busnes Bangor
5 Gorffennaf 2018	Galwad gynadledda rhwng yr Athro Max Munday (Prifysgol Caerdydd) ac Ysgol Busnes Bangor
25 Gorffennaf 2018	Ymweld a Comisiwn Cyllidol yr Alban gan Ysgol Busnes Bangor
20 Awst 2018	Cyfarfod rhwng Trysorlys Cymru, Swyddfa Cyfrifoldeb Gyllidebol ac Ysgol Busnes Bangor
5 Medi 2018	Cyfarfod rhwng Trysorlys Cymru ac Ysgol Busnes Bangor
4 a 5 Hydref 2018	Ymweld a'r 2018 Interparliamentary Finance Network

Nid oes manylion am alwadau ffôn dilynol a chyfathrebu ad-hoc.